COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD DDYDD IAU 18 HYDREF 2018

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir DW Meredith (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, B Baynham, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, J Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, H Hulme, A Jenner, D R Jones, E Jones, G Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, K Lewis, P E Lewis, MC Mackenzie, I McIntosh, S McNicholas, C Mills, G Morgan, N Morrison, R Powell, WD Powell, D R Price, GD Price, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, D Selby, K S Silk, D A Thomas, R G Thomas, T J Van-Rees, E Vaughan, M Weale, A Williams, D H Williams, J Williams, R Williams ac S L Williams

1.	**YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir G Breeze, S M Hayes, E A Jones, H Lewis, S Lewis, JG Morris, J Wilkinson, G I S Williams a J M Williams.

2.	**COFNODION**

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd 12 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir.

3.	**DATGANIADAU BUDDIANNAU**

Datganodd y Cynghorwyr Sir M Alexander, J Evans a T Van-Rees fuddiannau personol a rhagfarnus yn eitem 8.3 ar yr agenda. Datganodd y Cynghorydd Sir R Williams fuddiant personol yn yr eitem hon fel un o Ymddiriedolwyr Mind Aberhonddu.
Datganodd y Cynghorwyr Sir D Davies, P Pritchard a K Roberts-Jones fuddiannau personol yn eitem 15.4 ar yr agenda.

4.	**CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cyflwynodd y Cadeirydd gymeradwyaeth gan Farnwr Llys y Goron a fu'n llywyddu dros achos Ymgyrch Gleam i aelodau o dimau Safonau Masnach a Chyfreithiol Powys. Derbyniwyd cymeradwyaeth gan y canlynol:
Nikki Davies Wheeler fel yr uwch-swyddog ymchwilio yn yr achos
Desmond Fitzpatrick am y gwaith ymchwilio ariannol
Robert Brown am ei gefnogaeth gan Wasanaethau Cyfreithiol Powys.
Derbyniwyd cymeradwyaeth gyffredinol ar ran y tîm Safonau Masnach gan Christine Micah Meredith, Lisa Woods, Joanne Davies, Grace Doran a Nicola Croose.

DRAFT

Cyflwynodd Mr Peter Jones, y Prif Ymgynghorydd gydag Eunomia, wobr i'r Cynghorydd Phyl Davies i gydnabod bod gan Bowys y gwasanaeth casglu ailgylchu mwyaf effeithiol at leihau allyriadau CO_2 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Wrth dderbyn y wobr, diolchodd Deiliad y Portffolio dros Asedau'r Priffyrdd ac Ailgylchu i staff a thrigolion Powys am eu cyfraniad.

5. CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr holl ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn y sir dros yr haf gan nodi bod Gŵyl y Dyn Gwyrdd wedi derbyn gwobr y BBC am Ŵyl Orau'r Flwyddyn ac awgrymodd y dylai llythyr llongyfarch gael ei yrru. Hefyd cyfeiriodd at welliannau sydd ar y gweill yng Ngwasanaethau Plant gan nodi bod AGC ar hyn o bryd yn arolygu'r gwasanaeth. Cyhoeddodd fod y bumed ysgol gynradd a'r olaf yn nalgylch Gwernyfed wedi agor gan gwblhau buddsoddiad o £25 miliwn yn yr ardal a bod gwaith ar y gweill ar yr ysgol cyfrwng Saesneg newydd yn y Trallwng. Roedd gwaith yn dechrau ar adolygiad o addysg yn y Drenewydd a allai ddenu buddsoddiad o £50 miliwn. Roedd hi wedi siarad ar ran y Cyngor yn y gwasanaeth coffa i'r diweddar Mr John Brunt, cyn-Gadeirydd y Cyngor. Bu'r Arweinydd hefyd yn rhoi'r diweddaraf i'r Cyngor ynglŷn â CLILC lle'r oedd wedi pledio'r achos dros gydnabod costau ychwanegol darparu gwasanaethau mewn ardal wledig yn y setliad gan Lywodraeth Cymru.

6. CYHOEDDIADAU'R PRIF WEITHREDWR

Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr wybod i'r Cyngor fod gostyngiad o £1.7 miliwn yn y cyllid wedi'i gyhoeddi yn y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Roedd y cyllid gostyngedig sydd ar gael yn gyrru newid o ran sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu gyda chyngor llai a mwy sionc. Bu'r Dirprwy Brif Weithredwr hefyd yn cyhoeddi bod dros 100 o enwebiadau wedi'u derbyn ar gyfer y gwobrau i staff a byddai'r rhai terfynol yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir.

7. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD – UCHAFSWM O 20 MUNUD

7.1 Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Bobl Ifainc a Diwylliant gan Richard Spanswick

O gofio bod gan y Trallwng lyfrgell bwrpasol ardderchog sy'n hygyrch ac yn cael ei defnyddio'n helaeth yn ei safle yn Brook Street, a wnaiff y Cyngor gadarnhau y bydd yn blaenoriaethu anghenion y gymuned uwchlaw'r awydd i adleoli swyddfeydd y cyngor sir o Neuadd Maldwyn i adeilad y llyfrgell ar yr un pryd â lleihau stoc ac adnoddau'r llyfrgell a diogelu'r cyfleuster yma at ddefnydd y cyhoedd yn y dyfodol?

Ymateb
Rwyf yn deall ac yn gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd o ran unrhyw newid posibl i'r gwasanaeth ardderchog a ddarperir yn Llyfrgell y Trallwng ac Amgueddfa Powysland.

DRAFT

Bydd aelodau'n gwerthfawrogi bod pob cyngor ar draws y wlad ar hyn o bryd yn wynebu cyfyngiadau ariannol hynod lym ac nid yw Powys yn eithriad yn hyn o beth – ac mae'r sefyllfa hon yn mynd i barhau cyhyd ag y gellir ei weld i'r dyfodol. Fel cyngor, rhaid i ni geisio gwneud y defnydd gorau un a mwyaf costeffeithiol o'n hadeiladau a'n staff er budd ein preswylwyr.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau dyfodol hirdymor cynaliadwy i wasanaethau llyfrgell ac amgueddfa yn y Trallwng; rydym yn gwerthfawrogi bod y llyfrgell yn benthyca'r nifer uchaf namyn un o lyfrau yn yr awdurdod a bod y cyfrifiaduron hefyd yn cael eu defnyddio'n helaeth ac yn werthfawr dros ben i'r rheini heb eu dyfeisiau eu hunain.

Bydd staff y llyfrgell a'r amgueddfa'n gweithio'n galed iawn i sicrhau bod y cydleoli'n llwyddiannus; bod cynifer o lyfrau ac arteffactau ar gael ag sy'n bosibl, drwy gynllun sydd wedi'i baratoi'n ofalus, gan gynnwys cysylltedd digidol i'r cyhoedd. Parheir i ddarparu'r gwasanaethau presennol gyda staff hyfforddedig wrth law i helpu ymwelwyr wrth ddewis o'r silffoedd, benthyca e-lyfrau neu archebu llyfrau o fannau eraill yn yr awdurdod os bydd angen ac i esbonio am y gwahanol eitemau ar ddangos a diwylliant a threftadaeth leol y Trallwng.

Mewn rhannau eraill o'r sir, rydym wedi cael bod niferoedd yr ymwelwyr wedi codi a bod aelodau o'r cyhoedd yn mwynhau gallu defnyddio mwy nag un gwasanaeth mewn un lleoliad, er enghraifft, yn llyfrgelloedd Llandrindod, Llanidloes, Llanfair-ym-Muallt a Threfyclo. Gobeithiwn y bydd y cydleoli yma hefyd yn galluogi ymwelwyr i barhau i fwynhau amrywiaeth ddiddorol o stoc, arddangosfeydd a gweithgareddau mewn lleoliad hyfryd ar lan y gamlas.

Cwestiwn atodol Mr Spanswick oedd, "O gofio y bydd cost addasu adeiladau'r llyfrgell a'r amgueddfa ar gyfer eu defnydd newydd arfaethedig yn debygol o fod yn faich ar gyllid cyhoeddus yn y tymor byr o leiaf, beth yw canlyniadau unrhyw ddadansoddiad cost a budd a wnaethpwyd i ddangos bod israddio ased cyhoeddus o bwys o lyfrgell gymunedol i swyddfeydd sir yn gam gwerth chweil i'w gymryd yn y tymor hir?" Dywedodd Deiliad y Portffolio dros Bobl Ifainc a Diwylliant y byddai'n gofyn i'w chydweithwyr o wasanaethau eraill ymateb am y pwynt ehangach ynglŷn â'r dadansoddiad cost a budd.

7.2. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Ddysgu a'r Iaith Gymraeg gan Buddug Bates**

A all yr Aelod sydd â chyfrifoldeb am y portffolio Addysg gadarnhau pryd y mae ysgol uwchradd categori 2a newydd yng Ngogledd Powys yn debygol o agor?

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar gyfer 2017-20 yn cynnwys ymrwymiad i barhau gyda'r gwaith o sefydlu un neu ragor o ysgolion categori 2A yng ngogledd Powys.

Ers cyhoeddi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) cyntaf y Cyngor ar gyfer Band B rhaglen gyfalaf Ysgolion y 21ain ganrif wedi'i chymeradwyo gan y Cabinet a Llywodraeth Cymru. Mae'r RhAS yn cynnwys buddsoddiad sylweddol mewn addysg yn y Drenewydd: mae hyn yn cynnwys adeiladau newydd i Ysgol Cedewain ac Ysgol Neuadd Brynllywarch, buddsoddiad yn ysgolion cynradd y dref a datblygu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.

DRAFT

Mae'r gwaith yn y Drenewydd mewn cyfnod dichonoldeb cynnar ac unwaith bod hwn wedi'i gwblhau, bydd yn bosibl llunio amserlen fanylach ar gyfer y ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg arfaethedig. Fodd bynnag, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn dilyn yr amserlenni dangosol presennol sef:

2018-19:	Gwaith dichonoldeb cychwynnol Cymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen ag unrhyw brynu tir, proses statudol
2019-20:	Proses statudol Datblygu achosion busnes cychwynnol
2020-21:	Datblygu cynlluniau manwl, penodi contractwr
2022:	Adeiladu'n dechrau

Yn seiliedig ar hyn, disgwylir y byddai tua 2023/2024 cyn i unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd gael ei hagor. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau mewn awdurdodau eraill lle mae trefniadau dros dro wedi'u rhoi yn eu lle i sefydlu 'egin-ddarpariaeth' wrth aros i waith adeiladu gael ei gwblhau. Dyma a ddigwyddodd yn ddiweddar yn achos Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yng Nghasnewydd a sefydlwyd mewn llety dros dro ym mis Medi 2016, cyn symud i lety parhaol yn 2018. Pe bai hyn yn bosibl, gellid sefydlu darpariaeth newydd ynghynt. Fodd bynnag, byddai unrhyw symudiad i sefydlu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ddibynnol ar y broses statudol fel a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac ar gymeradwyaeth y Cabinet fel sy'n ofynnol drwy gydol y broses.

Y gobaith yw y gellir cynnig eglurhad pellach dros y misoedd sydd ar ddod. Bydd cyfleoedd niferus i randdeiliaid gyfrannu i'r cynlluniau wrth iddynt gael eu datblygu.

Cwestiwn atodol Mrs Bates oedd, "Beth yn union yw'r egin-ddarpariaeth rydych yn ei chynnig cyn i'r ysgol ddwyieithog newydd gael ei sefydlu er mwyn atal llif y disgyblion sy'n cefnu ar fuddion eu haddysg ddwyieithog wrth gyrraedd 11 oed?" Atebodd Deiliad y Portffolio, yn ogystal â'r bwriad i greu ysgol categori 2a, fod y posibilrwydd o greu rhywfaint o'r ddarpariaeth cyn i'r adeilad newydd gael ei gwblhau'n cael ei ystyried. Digon cymhleth oedd cynllun o'r fath a gallai fod yn ddarostyngedig i oedi ond roedd pawb yn gweithio i sicrhau darpariaeth 2a yn y Drenewydd mor fuan ag y bo modd.

7.3. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Ddysgu a'r laith Gymraeg gan Heidi Wilson**

Yng ngoleuni'r ymarferiad aildendro'n ddiweddar ar gyfer holl drefniadau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, a all y cyngor roi sicrwydd i mi a rhieni eraill y mae eu plant yn defnyddio bws lleol y x48 (llwybr BW61 Llanddewi i Lanfair-ym-Muallt) fod asesiad risg cyflawn wedi'i gynnal a bod y cyngor yn fodlon os bydd digwyddiad traffig ar y ffordd, fod mesurau digonol yn eu lle i ddiogelu ein plant cyn belled ag y bo'n bosibl ar y darn peryglus yma o'r ffordd? Gofynnaf hyn yn enwedig mewn cysylltiad â'r disgyblion hynny sy'n gorfod sefyll wrth ddefnyddio'r gwasanaeth yma.

Ymateb
Mae'r awdurdod wedi derbyn ychydig o ohebiaeth gan rieni ynglŷn â'r llwybr bysiau hwn sy'n cludo disgyblion o'r gogledd i Landrindod i gampws Ysgol Calon

DRAFT

Cymru yn Llanfair-ym-Muallt ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg; mae'r disgyblion hyn yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim yn unol â'n meini prawf cyhoeddedig.

Yn dilyn ymarferiad aildendro a wnaethpwyd gan yr awdurdod, mae cludiant ar gyfer y llwybr hwn bellach yn cael ei ddarparu gan fws cyhoeddus (fel sy'n digwydd mewn llawer o awdurdodau lleol) a bu rhai rhieni'n poeni am ddisgyblion yn gorfod sefyll ar gyfer y siwrnai.

Er mwyn asesu'r risg, teithiodd un o swyddogion yr awdurdod lleol ar y siwrnai ddwyffordd drosto'i hun gan nodi bod rhai disgyblion yn dewis sefyll yn hytrach nag eistedd ac mae'r awdurdod yn ffyddiog bod y gwasanaeth a ddarperir a'r llwybr yn ddiogel.

Mae bysiau gwasanaeth fel y rhai a ddarperir ar y gwasanaeth rhwng Llanfair-ym-Muallt a Llandrindod wedi'u hadeiladu i gynnwys lle i deithwyr mewn seddau, cadeiriau olwyn ac i'r rheini sy'n sefyll. Cofrestrwyd y bws a ddefnyddir ar y gwasanaeth hwn yn 2018 ac mae'n gerbyd newydd sbon a fu'n gorfod cyrraedd safonau diogelwch Ewropeaidd llym iawn. Mae lle i 41 eistedd ar y bws gyda lle ar ben hynny i 43 sefyll (gydag un lle'n llai os bydd cadair olwyn ar y bws) gan roi cyfanswm o 84 o deithwyr. Dengys ein cofnodion fod 26 o ddysgwyr sy'n mynychu campws Llanfair-ym-Muallt sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly mae'r Cyngor wedi gofyn yn benodol am fws sydd â digon o le i'r dysgwyr hynny sy'n gymwys ar gyfer cludiant statudol rhwng y cartref a'r ysgol.

I liniaru unrhyw risgiau ymhellach mae'r Cyngor yn gofyn bod gwregysau diogelwch ar y rhan fwyaf o fysiau gwasanaeth a ddarperir gennym, gan gynnwys y bws penodol hwn, ond does dim gofyniad cyfreithiol i'w gosod ar fws gwasanaeth. Ar ben hynny, mae'r cwmni bysiau wrthi'n gosod teledu cylch cyfyng gyda 'ffrwd fyw' o'r bws hwn a fydd yn galluogi'r cwmni i adnabod unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y bws gan unrhyw deithwyr (aelodau o'r cyhoedd neu ddysgwyr ysgol) a defnyddwyr eraill ar y ffyrdd. Mae gyrrwr rheolaidd ar y gwasanaeth penodol hwn ac mae'r adborth gan y swyddog a deithiodd ar y cerbyd oedd bod yr holl ddysgwyr a ddefnyddiai'r bws yn hynod ufudd, cwrtais a chydweithredol gan ymateb yn dda i unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan y gyrrwr.

Hefyd, mae'r Cynghorydd Aled Davies ac uwch-swyddogion o Gyngor Sir Powys wedi cwrdd ac yn dal i fod mewn cysylltiad parhaus â'r pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr i wneud yn siŵr yr ymatebir i unrhyw faterion sy'n codi. Yr wythnos yma, mae'r Cynghorydd Aled Davies a'r Cynghorydd Myfanwy Alexander wedi anfon llythyr at holl rieni a gofalwyr y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn a byddant yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r ysgol, gyda diogelwch a lles ein pobl ifainc yn flaenoriaeth ddiamod i'r Cyngor.

Gofynnodd Ms Wilson am gopi o'r mesurau a gymerir gan y Cyngor i leihau'r risgiau i ddisgyblion sy'n teithio ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol gan gynnwys mynd ar y bws ac oddi arno ac aros mewn mannau casglu gan ofyn pa weithdrefnau monitro sydd gan y Cyngor yn eu lle o ran cydymffurfio â'r contract a chydymffurfio â'r gweithdrefnau i ddiogelu disgyblion. Roedd yr asesiad risg wedi'i dderbyn ac unwaith iddo gael ei ystyried byddai adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Cyngor i weithredu arno.

DRAFT

Rhoddodd Deiliad y Portffolio sicrwydd pendant na fyddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i dendrau cludiant ysgolion heb fod diogelwch disgyblion yn flaenoriaeth. Roedd dros 50% o ddysgwyr yn cael eu cludo ar fysiau gwasanaeth ac nid oedd unrhyw faterion diogelwch yn codi. Roedd hi'n fodlon darparu unrhyw fanylion angenrheidiol pellach gan groesawu unrhyw wybodaeth ychwanegol oedd ar gael.

7.4 Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan Trudy Stedman

Yn ystod digwyddiad "cwrdd â'r Cyngor" yn ddiweddar yn y Gelli Gandryll, gofynnodd sawl preswyliwr am faterion ynglŷn â throsglwyddo asedau o Gyngor Sir Powys i Gyngor Tref y Gelli gan fod hyn yn cael ei drafod ers dros 3 blynedd. Byddwn yn ddiolchgar os gallai aelod y Cabinet roi gwybod am bryd y mae trafodaethau'r Cabinet ynglŷn â throsglwyddo'r asedau yn y Gelli yn debygol o gael eu cynnal gan roi amserlen gwblhau bosibl fel y gellir sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i drigolion y Gelli.

Ymateb
Bydd y Cabinet yn ystyried y materion hyn yn ei gyfarfod 28 Tachwedd 2018 gydag unrhyw gamau angenrheidiol yn cael eu cwblhau cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny, ond o fewn 3 neu 4 mis arall fan bellaf.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

7.5. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan Jane Rees**

O ystyried bod adroddiadau'n cadarnhau bod dros 300 o dannau'n digwydd bob blwyddyn mewn gweithfeydd ailgylchu ledled y DU pa mor fodlon yw Cyngor Sir Powys, os bydd digwyddiad mawr yn y gwaith ailgylchu arfaethedig yn Aber-miwl, na fydd economi canolbarth Cymru yn cael ei pharlysu gan gau cefnffordd yr A483 a Rheilffordd y Cambrian? Bydd tân o'r fath mewn adeilad sydd wedi'i wasgu rhwng dau brif lwybr prifwythiennol ac sydd â chyfaint o dros 18545m3 yn cael ei adael i losgi dros sawl diwrnod. Bydd hwn yn cael effaith drychinebus ar yr amgylchedd sensitif yma gan arwain at gyfnod cythryblus hirfaith. Bydd y nwyon niweidiol sy'n dod o blastig sy'n llosgi'n golygu y bydd rhaid i drigolion y pentref cyfagos gael eu symud oddi yno yn ddiymdroi. O gofio'r uchod a ddylai'r Cyngor ystyried lleoliadau eraill sy'n fwy addas?

Ymateb
Dim ond storio deunydd a gesglir wrth ymyl y ffordd am gyfnod byr y bydd yr adeilad arfaethedig cyn iddo gael ei symud ymlaen yn rheolaidd ac ni fydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio i brosesu unrhyw ddeunydd ailgylchu. Felly meintiau cyfyngedig o ddeunyddiau a allai hylosgi fydd yn cael eu storio yn yr adeilad ac o gofio eu natur risg isel, mae'r ffynonellau a allai gynnau tân yn gyfyngedig. Rheolir y safle gan weithredwyr o Bowys yn unol â Thrwydded

DRAFT

Amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn rheoli gweithrediadau ar y safle yn llym er mwyn lleihau unrhyw risgiau amgylcheddol. Gosodir system larwm tân awtomatig gyda synhwyryddion fflam yn yr adeilad i rybuddio staff a gwasanaethau brys os oes unrhyw arwydd o dân yn dod i'r fei. Bydd offer ymladd tân ar gael ar y safle ac fe'u harolygir yn rheolaidd.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Rees oedd, o gofio pryderon preswylwyr, a fyddai'r Cabinet yn ystyried gohirio'r adeiladu am 4 mis er mwyn ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer safle tir llwyd mwy addas i ffwrdd o ardaloedd diwydiannol. Dywedodd Deiliad y Portffolio, o gofio'r pwysau o ran cost ar y Cyngor, na fyddai'n bosibl gohirio'r datblygiad.

8. HYSBYSIADAU CYNIGION

8.1. Hysbysiad Cynnig – Ymgysylltu â'r Etholwyr

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Pugh a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan.

Cred y Cyngor hwn fod awdurdodau lleol yn rhy aml yn colli hyder yr etholwyr oherwydd y gallant ymddangos ar wahân a heb fod yn atebol. Rhaid gwneud mwy i ymgysylltu â'r etholwyr a thanio eu brwdfrydedd er mwyn gwneud llywodraeth leol yn rhan fwy egnïol a pherthnasol o'n cymunedau.

Wrth siarad o blaid y cynnig, dadleuodd y Cynghorydd Pugh nad oedd y Cyngor yn gwrando ar farn pobl leol a soniodd am leoli'r cyfleuster ailgylchu yn Aber-miwl fel enghraifft. Cydnabu y byddai'n rhaid i'r Cyngor weithiau wneud penderfyniadau anodd ac amhoblogaidd ond roedd pobl yn cael eu gadael dan yr argraff fod y Cyngor yn gwneud yr hyn a fynnai heb wrando ar bobl leol. Gofynnodd i'r Arweinydd wrando ar bobl Aber-miwl ac adleoli'r cyfleuster ailgylchu mewn lle mwy addas. Pwysodd ar y Cyngor i agor deialog adeiladol â phobl Aber-miwl sy'n gydnaws â hanfod y cynnig.

Gofynnodd nifer o Aelodau a siaradai o blaid y cynnig i safbwyntiau preswylwyr Aber-miwl gael eu hystyried. Roedd aelodau eraill yn cefnogi'r teimlad y tu ôl i'r cynnig gan gydnabod yr angen am ymgysylltu'n dda â chymunedau fel y gallent ddeall pam mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a chyfeirio at brosiectau moderneiddio ysgolion fel enghraifft.

O 63 o bleidleisiau i 0

PENDERFYNWYD bod y Cyngor hwn yn credu bod awdurdodau lleol yn rhy aml yn colli hyder yr etholwyr oherwydd y gallant ymddangos ar wahân a heb fod yn atebol. Rhaid gwneud rhagor i ymgysylltu â nhw a thanio eu brwdfrydedd i wneud llywodraeth leol yn rhan fwy egnïol a pherthnasol o'n cymunedau.

8.2. Hysbysiad Cynnig yn cynnig gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau ym Mhowys

DRAFT

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a roddwyd gerbron gan y Cynghorydd Sir Amanda Jenner a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts:

Mae'r cyngor hwn yn cynnig bod y camau perthnasol yn cael eu cymryd i wahardd unrhyw syrcasau sy'n defnyddio anifeiliaid annomestig a/neu wyllt rhag llogi unrhyw dir sy'n eiddo i Gyngor Sir Powys.

Mae'r cyngor hwn yn cynnig ar ben hynny nad yw eiddo a gwasanaethau Cyngor Sir Powys (gan gynnwys Ysgolion, Llyfrgelloedd, Ardaloedd Cymunedol/leuenctid) yn hysbysebu syrcasau sy'n defnyddio anifeiliaid annomestig a/neu wyllt.

Mae'r cyngor hwn yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru drwy ddwyn yn ei flaen y gwaharddiad deddfwriaethol arfaethedig ar y cyfle cyntaf posibl.

Wrth gyflwyno'r cynnig, nododd y Cynghorydd Jenner, er bod Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ynglŷn â deddfwriaeth i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau, mai camau yw'r rhain y gallai'r Cyngor eu cymryd yn ddiymdroi.

O 56 o bleidleisiau i 1 gyda 2 yn ymatal

PENDERFYNWYD bod

Y cyngor hwn yn cynnig bod y camau perthnasol yn cael eu cymryd i wahardd unrhyw syrcasau sy'n defnyddio anifeiliaid annomestig a/neu wyllt rhag llogi unrhyw dir sy'n eiddo i Gyngor Sir Powys.

Ar ben hynny, mae'r cyngor hwn yn cynnig nad yw eiddo a gwasanaethau Cyngor Powys (gan gynnwys Ysgolion, Llyfrgelloedd, Ardaloedd Cymunedol/leuenctid) yn hysbysebu syrcasau sy'n defnyddio anifeiliaid annomestig a/neu wyllt.

Mae'r cyngor hwn yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru drwy ddwyn yn ei flaen y gwaharddiad deddfwriaethol arfaethedig ar y cyfle cyntaf posibl.

8.3. **Hysbysiad Cynnig – Cefnogi Ein Pobl Ifainc**

Datganodd y Cynghorwyr Sir Myfanwy Alexander, James Evans a Timothy Van-Rees fuddiannau yn yr eitem hon gan adael y cyfarfod wrth iddi gael ei thrafod.

Bu'r cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies:

Mae ein pobl ifainc yn wynebu pwysau a heriau sylweddol.
Rydym felly yn galw ar y Cyngor i:

- Gydnabod yr her, peryglon a phwysau a wynebir gan ein pobl ifainc

DRAFT

- Paratoi strategaeth gefnogi i'r rhai 16-25 oed ym Mhowys gan bontio o wasanaethau cymdeithasol plant gan gynnwys:
- Sicrhau prosiect Llesiant yn ein hysgolion iau ac uwchradd
- Sicrhau bod Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai'n cydweithredu i osgoi seilos yn yr awdurdod
- Cydweithredu gyda'r Ffermwyr Ifainc i godi ymwybyddiaeth o unigrwydd mewn cymunedau gwledig, materion iechyd meddwl, rhywioldeb a chyffuriau
- Cydnabod gwaith elusennau lleol a darparwyr trydydd sector a chydweithio â nhw i sicrhau cynaliadwyedd eu gwasanaethau cymorth i'r dyfodol
- Cydweithredu â Shelter Cymru i hybu hawliau ym maes tai
- Cydweithredu â Cais
- Datblygu cyfleoedd profiad gwaith
- Datblygu un o dyddynnod y Cyngor i ddarparu profiad o weithio ar y tir, garddwriaeth a'r awyr agored fel rhan o'r broses o helpu unigolion i ymgryfhau.

Dadleuodd y Cynghorydd Vaughan fod angen brys am raglen gymorth hygyrch i bobl ifainc, yn enwedig y rheini sy'n gadael gofal. Rhoddodd Deiliaid y Portffolio dros Bobl Ifainc a Diwylliant y diweddaraf i'r Aelodau am y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi pobl ifainc gan roi gwybod bod tîm 16+ yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Rhoddodd Deiliad y Portffolio dros Gyllid wybod y byddai'r Cyngor yn cyflwyno rhyddhad yn ôl disgresiwn rhag y Dreth Gyngor i bobl ifainc sy'n gadael gofal o fis Ebrill 2019.

Cyflwynwyd newid gan y Grŵp Llafur. Ar ôl toriad rhwng 12.06 a 12.26, ystyriodd y cynghorwyr newid diwygiedig ac o 49 pleidlais i 6

PENDERFYNWYD

- **Cydnabod yr her, peryglon a phwysau a wynebir gan ein pobl ifainc**
- **Paratoi strategaeth gymorth i'r rhai 16-25 oed ym Mhowys, gan bontio o wasanaethau cymdeithasol plant gan gynnwys:**
- **Sicrhau prosiect Llesiant yn ein hysgolion iau ac uwchradd**
- **Sicrhau bod pob person ifanc ym Mhowys yn cael mynediad cyfartal i wasanaethau tai a gofal o ansawdd da gan eithrio'r rhai sy'n gadael gofal rhag talu'r Dreth Gyngor hyd at 25 oed**
- **Cydweithredu â darparwyr Gwasanaethau leuenctid i godi ymwybyddiaeth o unigrwydd ym mhob cymuned, problemau iechyd meddwl, iechyd rhywiol da, rhywioldeb, hunaniaeth rhywedd, cyffuriau ac alcohol**
- **Cydnabod gwaith elusennau lleol a darparwyr y trydydd sector a chydweithio â nhw i sicrhau cynaliadwyedd eu gwasanaethau cymorth i'r dyfodol**
- **Cydweithredu â Shelter Cymru ac elusennau tai cyffelyb i ddarparu hawliau ym maes tai**
- **Cydweithredu â Cais ac elusennau a darparwyr iechyd meddwl eraill**

DRAFT

- **Datblygu profiad gwaith gwerth chweil a chyfleoedd prentisiaeth**
- **Edrych ar bosibiliadau datblygu un o dyddynnod y Cyngor i ddarparu cyfleoedd i bobl ifainc ym Mhowys i ddysgu am arddwriaeth ac amaethyddiaeth ac ehangu mynediad i gefn gwlad.**

8.4. **Hysbysiad Cynnig - Effaith Brexit**

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts:

Mae'r Cyngor yn gofyn i Gabinet Cyngor Sir Powys weithredu'r canlynol:-
Gan ddefnyddio fel sail y dadansoddiadau Cymru gyfan a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru a CLILC o effaith gwahanol senarios Brexit ar Gymru yn ei chrynswth, comisiynu dadansoddiad cynhwysfawr o'r effaith y bydd yr un senarios yn ei chael ar:

a) Economi Powys, gan gynnwys yr effaith ar sectorau busnesau unigol ac ar lefelau sirol a rhanbarthol.
b) Yr effaith yn ei sgil ar gymunedau Powys ar lefel leol gan gynnwys newidiadau tebygol i'r ddemograffeg ac incwm aelwydydd ynghyd â'r effeithiau ar gyfleoedd diwylliannol a hamdden lleol.
c) Yr effaith ar amgylchedd Powys yn y tymor byr, canolig a hir.
d) Yr effaith ar y Gymraeg ym Mhowys.
e) Gallu Cyngor Sir Powys i ddarparu ei wasanaethau statudol ac anstatudol, gan gynnwys effaith bosibl Brexit ar weithlu a chyllidebau'r cyngor.
f) Sicrhau bod yr holl effeithiau a nodir yn a) i e) yn cael eu cynnwys ar Gofrestr Risg y Cyngor,

ac ar ben hynny yn galw am Gyfarfod Arbennig gan y Cyngor i drafod y materion pan fydd y dadansoddiadau effaith wedi'u cwblhau.

Wrth siarad dros y cynnig, dywedodd y Cynghorydd Gibson-Watt y byddai goblygiadau sylweddol i'r Cyngor pe bai yna Brexit heb gytundeb. Cydnabu fod seminar wedi'i threfnu 7 Tachwedd i friffio aelodau ond roedd am i'r materion gael eu trafod mewn cyfarfod arbennig gan y Cyngor. Cyhoeddodd yr Arweinydd fod y swyddog sy'n arwain ar Brexit i CLILC wedi'i wahodd i'r seminar. Doedd hi ddim yn cefnogi bod y Cyngor yn cynnal Cyfarfod Arbennig ar hyn o bryd. Collwyd y bleidlais o 26 i 29.

8.5 Hysbysiad Cynnig – Pleidlais i'r Bobl

Bu'r Cyngor yn trafod y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Susan McNicholas:

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

a) Ychwanegu ei lais yn ffurfiol at y rheini sy'n galw am Bleidlais gyhoeddus i'r Bobl ar y cytundeb Brexit terfynol;

DRAFT

b) Cysylltu ag ymgyrch swyddogol 'Pleidlais y Bobl' ar ffyrdd y gall helpu i hybu ei deiseb;

c) Ysgrifennu at ei Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad, yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Weinidog yn mynegi ei farn gan ofyn iddynt gefnogi 'Pleidlais i'r Bobl'; a

d) Gofyn i'r Arweinydd gyflwyno'r achos ac ysgrifennu i'r perwyl hwn.

Wrth gyflwyno'r cynnig, cytunodd y Cynghorydd Dorrance y byddai Brexit heb gytundeb neu gyda chytundeb gwael yn niweidiol i Bowys o gofio cefnogaeth yr UE i ffermio ym Mhowys a nifer y swyddi sy'n dibynnu ar allforion i'r UE. Siaradodd aelodau eraill yn erbyn y cynnig gan nodi bod canlyniad y refferendwm ym Mhowys a Chymru wedi bod o blaid gadael. Collwyd y cynnig o 23 o bleidleisiau i 35.

Torrodd y Cyngor rhwng 13.15 a 14.02.

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir DW Meredith (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, M Barnes, B Baynham, J Charlton, L V Corfield, K W Curry, A W Davies, B Davies, D E Davies, P Davies, S C Davies, M J Dorrance, E Durrant, D O Evans, J Evans, L Fitzpatrick, L George, J Gibson-Watt, M R Harris, H Hulme, A Jenner, D R Jones, E Jones, J R Jones, E M Jones, M J Jones, D Jones-Poston, F H Jump, K Laurie-Parry, P E Lewis, I McIntosh, S McNicholas, C Mills, G Morgan, N Morrison, R Powell, WD Powell, D R Price, GD Price, P C Pritchard, G Pugh, J Pugh, G W Ratcliffe, L Roberts, P Roberts, K M Roberts-Jones, E Roderick, D Rowlands, D Selby, K S Silk, D A Thomas, R G Thomas, E Vaughan, M Weale, A Williams, D H Williams, J Williams, R Williams a S L Williams

9. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2017 - 18

Cyflwynodd yr Arweinydd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol drafft ar gyfer 2017-18. Wrth ymateb i alwadau i ymddiheuro am y cwymp ym mherfformiad y Cyngor o 42.9% o ddangosyddion a chasgliad Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd y Cyngor yn ateb ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus, dywedodd yr Arweinydd mai asesiad cytbwys oedd yr adroddiad o sefyllfa'r Cyngor. Cydnabu'r Arweinydd y meysydd y mae'n rhaid eu gwella wrth nodi hefyd fod y Cyngor yn cael ei sgorio'n rhif 6 o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru o ran cyflawni mesurau asesu perfformiad. Nododd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod yn dilyn yr arolwg o Wasanaethau Plant a ddigwyddodd 5 wythnos ar ôl i'r Cabinet gael ei ffurfio. Roedd y Cabinet wedi ymateb drwy roi mesurau perfformiad yn eu lle a chydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Gwelliant a Sicrwydd gan fuddsoddi dros £6 miliwn yng Ngwasanaethau Plant. Roedd y Cabinet hefyd wedi rhoi mesurau yn eu lle i gyflwyno cyllideb fantoledig a disgwyliai Deiliad y Portffolio dros Gyllid weld y rhain yn cael effaith yn yr adroddiadau nesaf am yr alldro cyllidebol i'r Cabinet.

Cydnabu Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu fod sylw wedi'i roi yn yr adroddiad i'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Craffu. Awgrymodd y dylid gwneud cais i Lywodraeth Cymru i gwtogi'r adroddiad i'w wneud yn haws i'r cyhoedd ei

ddarllen ac yn rhatach i'w gynhyrchu. Cytunodd yr Arweinydd i edrych ar y posibilrwydd o gyhoeddi crynodeb gweithredol.

O 51 o bleidleisiau i 1 gyda 2 yn ymatal

PENDERFYNWYD	Rheswm am y Penderfyniad:
Cymeradwyo'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol DRAFFT ar gyfer 2017-18 yn Atodiad A i'r adroddiad.	**Sicrhau bod yr adroddiad yn rhoi adroddiad cytbwys ac agored am berfformiad Cyngor Sir Powys yn ystod y flwyddyn ariannol 2017-18 yn erbyn ei flaenoriaethau RhMG / amcanion llesiant.** **Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol fel a amlinellir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

10.	TROSGLWYDDIAD AR GYFER Y CYFRIF REFENIW TAI: SAFONAU ANSAWDD TAI CYMRU, LLETY I BOBL HŶN

Bu'r Cyngor yn ystyried dau drosglwyddiad mewn cysylltiad â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) o £6.790 miliwn i'w trosglwyddo o 2018/19 i 2019/20. Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Rosemarie Harris ac o 54 o bleidleisiau i 0

PENDERFYNWYD	Rheswm am y Penderfyniad:
Cymeradwyo'r trosglwyddiadau canlynol: • **£1,790,000 Safonau Ansawdd Tai Cymru** • **£5 miliwn Adeiladau Newydd y Cyfrif Refeniw Tai** **fel y manylir arno uchod ym mharagraffau 1.2 ac 1.3**	**Sicrhau bod trosglwyddiadau priodol yn cael eu gwneud sy'n adlewyrchu'r gwariant cyfalaf disgwyliedig.**

11.	DATGANIAD EGWYDDORION DRAFFT, DEDDF GAMBLO 2005

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhelliad y Pwyllgor Trwyddedu ynglŷn â newidiadau i ddatganiad egwyddorion drafft y Swyddog Trwyddedu. Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Francesca Jump a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Kath Roberts-Jones ac o 55 o bleidleisiau i 0

PENDERFYNWYD	Y Rheswm am y Penderfyniad:

Cytuno ar y newidiadau i'r polisi fel a nodir yn yr adroddiad yn dilyn y cyfnod ymgynghori a bod y Datganiad Egwyddorion a wnaethpwyd yn unol â'r Ddeddf Gamblo i'w roi ar waith 1 Ionawr 2019.	**Yn unol â Deddf Gamblo 2005, paratoi a chyhoeddi Polisi Trwyddedu i ddod i rym ym mis Ionawr 2019**

12.	PENODIAD I'R CYNGOR IECHYD CYMUNEDOL

PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd Sir Beverley Baynham yn cael ei henwebu i wasanaethu ar Gyngor Iechyd Cymunedol Powys.

13.	TREFNIADAU I LENWI SWYDD WAG AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Bu'r Cyngor yn ystyried trefniadau i lenwi swydd wag ar y Pwyllgor Safonau pan fydd tymor swydd y Cadeirydd yn dod i ben ym mis Mai 2019.

PENDERFYNWYD	Rheswm am y Penderfyniad
Cymeradwyo'r trefniadau i wneud penodiad i'r Pwyllgor Safonau.	**Llenwi swydd wag sy'n codi ym mis Mai 2019.**

14.	PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL

Nododd y Cyngor y penodiadau canlynol:

Ymddiswyddodd y Cynghorydd Sir Sarah Lewis o'r Pwyllgor Craffu ar Iechyd, Gofal a Thai

Penodwyd y Cynghorydd Sir Iain McIntosh i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn lle'r Cynghorydd Sir Sarah Lewis

Ymddiswyddodd y Cynghorydd Sir Gary Price o'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Ymddiswyddodd y Cynghorydd Sir Maureen Mackenzie o'r Pwyllgor Craffu ar Iechyd, Gofal a Thai. Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cynghorydd Sir Roger Williams wedi'i benodi gan grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol i'r swydd wag hon.

15.	CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD

15.1. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Bobl Ifainc a Diwylliant gan y Cynghorydd Sir Gareth Jones**

I ba raddau y mae'r Mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc ym Mhowys yn cefnogi Gwasanaeth Ieuenctid statudol y Cyngor?

Ymateb

DRAFT

Mae pob un o Glybiau'r Ffermwyr Ifanc yn gweithredu o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth sy'n nodi ei gyfraniad i gymorth i bobl ifainc ym Mhowys. Nid cyrff statudol mohonynt ond mae cymorth grant wedi'i ddarparu iddynt i gydnabod eu rôl wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ifainc yng nghefn gwlad Powys.
Mae Mudiad Clybiau Ffermwyr Ifainc ym Mhowys yn derbyn cyfanswm o £62,405 yn gyllid. Ar ben hynny darperir grant o £2,000 gan y Cyngor i bob CFfI i gefnogi'r trawsnewid i gynnal ei staff a'i faterion ei hun. Yn achos Sir Drefaldwyn aethant hefyd â'r cyfrifiaduron, monitorau, argraffyddion a chadeiriau swyddfa a ddarparwyd iddynt ynghynt gan y Cyngor.
Am eu grant, disgwylir i Glybiau'r Ffermwyr Ifainc ddarparu adroddiad chwarterol a ffigyrau cyswllt sylfaenol. Nodir hyn oll yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Cofnodir y ffigyrau gan Glybiau'r Ffermwyr Ifainc yn adroddiad archwilio blynyddol Llywodraeth Cymru i'r Gwasanaeth Ieuenctid ond fe'u nodir yn glir fel rhai gan CFfI, fel y mae ffigyrau'r Urdd. Defnyddir ffigyrau CFfI i riportio nifer y cysylltiadau i Bowys yn unig, ac nid i chwyddo ffigyrau'r gwasanaeth ieuenctid nac i gael mynd at gyllid ychwanegol. Mae Gwasanaethau Ieuenctid eraill ar draws Cymru hefyd yn darparu'r ffigyrau hyn.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

15.2. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Huw Williams**

Rydym yn dathlu, yn ddigon priodol, lefel uchel gwastraff aelwydydd sy'n cael ei ailgylchu gan breswylwyr Powys, ond beth yw llwybr a chyrchfan derfynol pob eitem o ddeunydd ailgylchu a gesglir wrth ymyl y ffordd gan Wasanaethau Gwastraff yr Awdurdod? Beth yw cyrchfan bresennol y gwastraff sy'n weddill?

Ymateb
Nodwyd cyrchfan y gwastraff sy'n weddill mewn diagram.
Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Williams ynglŷn â beth roedd y rheini heb gludiant i fod i wneud â'u gwastraff gwyrdd, dywedodd Deiliad y Portffolio y byddai casglu wrth ymyl y ffordd yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 2019.

15.3. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Lywodraethu Corfforaethol, Tai ac Amddiffyn y Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Huw Williams**

Ym mis Hydref 2017, cytunodd y Cyngor i gefnogi'r cynnig canlynol:
PENDERFYNWYD

1. **Bod y Cyngor yn credu bod rhaid iddo wneud cymaint ag sy'n bosibl i helpu preswylwyr sy'n profi tlodi tanwydd i liniaru'r sefyllfa yma;**

   a) **Byddai preswylwyr Powys yn elwa'n fawr ar filiau ynni llai drwy gynllun i newid i ynni ar y cyd a reolir gan Gyngor Sir Powys;**

   b) **Gall yr awdurdod ymuno ag awdurdodau a sefydliadau eraill yng Nghymru drwy gynllun Cyd Cymru;**

   c) **Mae'r cynlluniau a reolir gan Geredigion yn darparu model arferion gorau ar gyfer rheoli clybiau tanwydd o'r fath;**

   d) **Gall yr awdurdod arfer ei bŵer cydfargeinio i'r cynlluniau prynu**

DRAFT

tanwydd deuol ac olew

2. **Gofyn i'r Hyrwyddwr Gwrthdlodi a'r Grŵp Gwrthdlodi ymchwilio i ddichonoldeb gweithredu ei gynllun ei hun neu ymuno â chynllun Cyd Cymru.**

3. **Gofyn i'r Hyrwyddwr Gwrthdlodi a'r Grŵp Gwrthdlodi ymchwilio i ddichonoldeb gweithredu cynllun prynu olew ar draws Powys.**

4. **Cydweithio â chymdeithasau tai lleol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, grwpiau gwirfoddol, cartrefi gofal ac aelwydydd ar draws Powys i gynyddu ymwybyddiaeth a'u hannog i ymgofrestru â'r cynlluniau hyn.**

A allwn gael adroddiad am y sefyllfa bresennol a'r diweddaraf am y materion hyn?

Ymateb
Gweler y diweddariad canlynol sy'n ymwneud â'r gwaith y mae'r Gwasanaeth Tai wedi'i wneud dros y deuddeg mis diwethaf i gefnogi aelwydydd ar draws Powys sy'n profi tlodi tanwydd.

<u>Cynllun Nyth Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru</u>

Mae Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cynlluniau Nyth, yn darparu cyllid i welliannau effeithlonrwydd ynni i aelwydydd incwm isel a'r rheini sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ar draws Cymru. Mae cynllun Nyth yn darparu mynediad i gyngor a chefnogaeth am ddim i ddeiliaid tai sy'n byw yng Nghymru i'w helpu i leihau eu biliau ynni. Gall y rheini sy'n bodloni meini prawf Nyth dderbyn pecyn di-dâl o fesurau effeithlonrwydd ynni.

Yn ystod 2017/2018, daeth 11% o ymholiadau i Nest gan breswylwyr ym Mhowys – dyma'r ganran uchaf yng Nghymru (ar y cyd â Sir y Fflint). I godi ymwybyddiaeth o'r cynllun ymhlith preswylwyr Powys, rydym wedi cynnal sesiynau 'galw heibio' ar draws y sir, wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun ar y wefan, wedi ymweld â chartrefi a chwblhaodd y Tîm Incwm a Dyfarniadau ymgyrch uniongyrchol drwy'r post.

<u>Cynllun ARBED Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru</u>

Dechreuodd cynllun 'ARBED Am Byth' newydd eleni. Rydym wedi cwrdd â rheolwyr y cynllun ac ar hyn o bryd yn datblygu cyfres o brosiectau i wneud cais am gyllid ar gyfer ardaloedd ac ystadau.

<u>Safon Ansawdd Tai Cymru</u>

Mae'r Gwasanaeth Tai'n parhau i fuddsoddi'n drwm yn stoc y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) drwy gwblhau gwelliannau. Yn 2017/18, gosododd y Gwasanaeth Tai 289 o fesurau arbed ynni yn eiddo'r CTR, fel systemau gwresogi newydd, inswleiddio llofftydd, inswleiddio waliau allanol a drysau a ffenestri newydd. Yn ystod 6 mis

DRAFT

cyntaf 2018/19 mae'r Gwasanaeth Tai wedi gosod 346 o fesurau arbed ynni yn eiddo'r CRT.

Ym mis Ionawr 2018, sefydlodd y Gwasanaeth Tai gontract newydd i gwblhau arolygon Tystysgrifau Perfformiad Ynni yn eiddo'r CRT. Mae 195 o'r Tystysgrifau hyn wedi'u cwblhau o dan y contract newydd eleni, sy'n helpu'r Gwasanaeth Tai i:

- Wella gwybodaeth SATC a adroddir wrth Lywodraeth Cymru;
- Nodi a thargedu gwelliannau mewn eiddo nad yw'n cyrraedd sgôr Cynllun Gweithredu Strategol o 65;
- Cyflawni'r rhwymedigaethau statudol yn unol â'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni mewn Adeiladau: a
- Darparu incwm o'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy lle mae systemau gwresogi ffynhonnell aer yn cael eu gosod.

ECO Flex

Cynllun grant ar draws y DU yw ECO Flex sy'n caniatáu gwelliannau effeithlonrwydd ynni i gwsmeriaid sy'n profi tlodi tanwydd (a ddiffinnir fel defnyddio 10% o incwm gwario ar wresogi). **Nid** yw'r cynllun yn dibynnu ar brawf modd na chwaith yn gofyn bod pobl yn derbyn budd-daliadau. Nid yw'n gynllun a ariennir gan y Cyngor (neu sydd ar gael i denantiaid Tai Cyngor); darperir y cyllid gan gwmnïau ynni drwy Rwymedigaeth Cwmnïau Ynni a cheir hyd iddo'n uniongyrchol gan asiantau.

Mae darparu cyllid ECO Flex yn dibynnu ar:

- ynni-effeithlonrwydd a'r math o danwydd sydd mewn eiddo unigol – yn cael ei asesu gan aseswr ynni cymwysedig
- a yw'r cleient mewn tlodi tanwydd
- arolwg manwl o'r eiddo – a wneir gan syrfëwr a/neu beiriannydd gwresogi cymwysedig

Hyd yma, mae cymorth ECO Flex wedi ymdrin â'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni canlynol:

- adnewyddu boeleri olew, LPG a nwy aneffeithlon gan osod modelau sy'n fwy effeithlon – darperir lefelau cyllid uwch i eiddo lle nad oes cysylltiad â'r prif gyflenwad nwy
- adnewyddu gwresogyddion storio trydan aneffeithlon gan osod modelau mwy effeithlon
- darparu inswleiddio i wella effeithlonrwydd ynni gan gynnwys mesurau megis inswleiddio waliau ceudod, waliau allanol a llofftydd (lle bo'n briodol)

Ers lansio'r cynllun ym mis Mawrth 2018, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi miloedd o ddatganiadau sy'n caniatáu i aelwydydd ym Mhowys gael offer gwresogi ynni effeithlon a mesurau inswleiddio. Mae hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar adnewyddu boeleri olew aneffeithlon (gan fod y cyllid ar gyfer y mesur yma'n

DRAFT

derbyn cymorthdaliadau sylweddol ac wedi dod i ben ar ddiwedd mis Medi 2018) wrth gyflwyno ECO 3.

Mae'r cynllun wedi arwain at:

- gymeradwyo dros 3,700 o geisiadau grant am foeleri ac inswleiddio (cyfradd osod o tua 50%)
- buddsoddi tua £9 miliwn yn yr economi drwy welliannau effeithlonrwydd ynni i gartrefi preswylwyr Powys, gan arbed ar gostau prynu gosodiadau newydd
- biliau tanwydd blynyddol cyfartalog sydd tua £200 yn llai i aelwydydd ymgeiswyr llwyddiannus, gan alluogi mwy o wariant yn yr economi leol
- sicrhau dros £200,000 o incwm i'r awdurdod mewn ffioedd

ECO 3

Daeth y cynllun ECOFLEX i ben ar ddiwedd mis Medi 2018 gyda diwedd cyllid ECO2. Mae'r cwmnïau cyfleustodau wedi lansio'r cynllun i'w olynu (ECO3). Mae Cyngor Sir Powys yn bwriadu cyhoeddi 'Datganiad Bwriad' diwygiedig i goleddu a hyrwyddo gosod mesurau gwresogi 'gwyrddach' newydd sy'n mynd i dderbyn cyllid. Ar hyn y bryd, mae datganiad bwriad drafft wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyn cael ei fabwysiadu gan y Cabinet.

Mewn ymgais i hybu'r gwaith a roddir i gontractwyr lleol, bwriedir hefyd y bydd y 'Datganiad Bwriad' diwygiedig yn cyfyngu ar nifer yr asiantau sy'n gweithredu ym Mhowys. Bydd yn mynnu bod asiantau'n defnyddio contractwyr lleol (lle bo'n bosibl) wrth wneud y gwaith gosod gan sicrhau bod y gyfradd ddarparu'n cael ei chynnal.

Bydd ECO 3 yn darparu:

- cyllid ar gyfer pympiau gwres o'r ddaear
- cyllid ar gyfer pympiau gwres ffynhonnell aer
- cyfraddau cyllido mwy deniadol i eiddo sy'n derbyn nwy
- cyfraddau cyllido mwy deniadol ar gyfer mesurau inswleiddio

I ategu'r ffrwd gyllido yma, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â **Chronfa Bancio Cymunedol Robert Owen** ar gynnig i ddarparu mesurau ychwanegol megis systemau solar PV a batri sy'n gysylltiedig â phympiau gwres ffynhonnell aer i leihau biliau ynni cleientiaid yn sylweddol iawn. Golyga hyn ddefnyddio gosodwyr solar lleol na fyddai fel arall yn derbyn unrhyw gymhorthdal o dan ECO 3. Rydym hefyd yn edrych i ddarparu lefelau uwch o inswleiddio mewn waliau allanol ar y cyd â benthyciadau di-log, gan sicrhau bod y mesur hwn a all fod yn ddrud yn fwy fforddiadwy i breswylwyr Powys.

Newid cyflenwr

Mae'r farchnad ynni wedi newid yn aruthrol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gyda niferoedd uwch o lawer o gyflenwyr ynni. Rydym ar ddeall y dylai'r materion canlynol gael eu hystyried wrth newid er mwyn sicrhau'r buddion gorau i'r defnyddiwr:

- Dylid ymgymryd â chymhariaeth ddiduedd a gymeradwyir gan Ofgem o'r farchnad gyfan;

DRAFT

- Dylid ystyried proffil risg y defnyddiwr/hanes gwasanaeth i gwsmeriaid y cwmni ynni (e.e. a yw nifer y cwynion gan gwsmeriaid a dderbynnir gan Ofgem i bob 100,000 o gwsmeriaid wedi cael ei ystyried);
- A yw'r defnyddiwr yn gymwys i dderbyn Gostyngiad Cartrefi Cynnes (£140 oddi ar ei fil trydan) a pha gwmnïau ynni sy'n ei gynnig, yn seiliedig ar amgylchiadau unigol deiliaid cartrefi. Gall £140 gael effaith sylweddol ar ba gwmnïau sy'n cynnig yr arbedion mwyaf i'r defnyddiwr;
- A oes cyfleoedd eraill i sicrhau'r incwm gorau neu arbedion y gellir eu hadnabod? (e.e. edrych i weld a oes hawl i fudd-daliadau, gostyngiad cartrefi cynnes, prisiau dŵr rhatach ac yn y blaen).
- A fyddai deiliad y cartref yn elwa ar atgyfeiriad trydydd parti? (e.e. Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth, Gofal a Thrwsio, Cyngor ar Ddyled, Cyngor ar Arian, y Gwasanaeth Tân)

Dengys ein trafodaethau ag awdurdodau eraill, sefydliadau trydydd sector a rhanddeiliaid yn y diwydiant mai cymhariaeth gyflawn o'r farchnad at ei gilydd yw'r dewis a ffefrir ar gyfer newid cyflenwr er mwyn sicrhau bod y dewisiadau gorau'n cael eu cyflwyno i'r deiliad tŷ. Rydym yn deall bod sawl ffordd o gael cyngor ar newid cyflenwr, fel gwefannau cymeradwy Ofgem, Llinell Gymorth i Ddefnyddwyr Cyngor ar Bopeth, swyddfeydd lleol Cyngor ar Bopeth (pan ddaw cyllid ar gael) a Gofal a Thrwsio. Rydym hefyd yn argymell yr ystyrir cyfleoedd eraill i sicrhau'r incwm uchaf ac arbed arian oherwydd gall problem tlodi tanwydd gael ei phriodoli'n rhannol i incwm cyfyngedig yr aelwyd. Gwelwyd yn yr adborth gan Swyddogion Ynni awdurdodau lleol eraill, er y gall cynlluniau newid (e.e. Cyd Cymru) arbed arian, gall gwefannau achrededig Ofgem (e.e. U-switch) weithiau arwain at arbedion uwch a dyna pam rydym yn argymell edrych ar ystod o ddewisiadau.

Syndicetiau prynu olew

Nid yw'r Gwasanaeth Tai wedi ymwneud o gwbl â chynllun prynu olew Ceredigion, ond rydym wedi clywed adborth cadarnhaol iawn am y ddau gynllun yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin. Rydym o'r farn, pe bai Cyngor Sir Powys yn buddsoddi yn y cynllun hwn, fod iddo'r potensial i arwain at arbedion sylweddol i rai aelwydydd gwledig ym Mhowys. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn cwrdd â chydweithwyr yn Adfywio i edrych a oes cyfle i fynd at ARWAIN i ariannu swydd i hybu a chefnogi sefydlu syndicetiau.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Williams pam cafodd y swydd i gefnogi'r cynllun prynu olew ei thocio ac a allai gael ei hailsefydlu, rhoddwyd gwybod gan Ddeiliad y Portffolio fod swyddogion yn chwilio am gyllid i ailsefydlu'r swydd.

15.4. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts**

DRAFT

Datganodd y Cynghorwyr Sir Dai Davies, Phil Pritchard a Kath Roberts-Jones fuddiannau personol yn yr eitem hon.

Mae'r ymgynghoriad ynghynt eleni i godi tâl am ddefnyddio'r lleoedd i'r anabl ym meysydd parcio'r Cyngor wedi achosi cryn dipyn o ofid ac ansicrwydd i lawer o ddefnyddwyr. Er fy mod yn croesawu'r estyniad i'r ymgynghoriad mae bellach dros fis ers iddo ddod i ben ac o hyd erys pryderon sylweddol am y cynlluniau sydd gan y cyngor erbyn hyn ynglŷn â'r mater yma.

Felly gaf i ofyn i Ddeiliad y Portffolio:
1. Faint o ymatebion a dderbyniodd i'r Ymgynghoriad Bathodyn Glas gan grwpiau yr effeithir arnynt a'r deiliaid bathodynnau presennol ac a yw'n ffyddiog bod yr ymgynghoriad wedi cyrraedd y bobl iawn, h.y. y rheini yr effeithir arnynt fwyaf?
2. Beth oedd lefel y gefnogaeth i bob un o'r dewisiadau a dderbyniwyd a phryd y bydd yn cyflwyno cynigion ffurfiol i'r Cabinet o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn neu a fydd yn rhoi'r gorau i'w gynlluniau i godi tâl ar ddeiliaid bathodynnau glas?

Ymateb

1. Derbyniwyd ymatebion i'r arolwg gan 476 o bobl sydd naill ai â bathodyn glas neu sy'n cynorthwyo rhywun sydd â bathodyn glas. O safbwynt ymchwil i'r farchnad ac o gofio nifer y bathodynnau glas dilys a ddyroddir i breswylwyr ym Mhowys, byddai ymateb gan 370 o bobl wedi darparu sampl oedd yn ystadegol ddibynadwy gan fod hwnnw'n darparu lefel hyder o 95%. Mae hyn yn golygu ein bod o leiaf 95% yn sicr bod barn yr ymatebion hynny'n adlewyrchu barn poblogaeth ehangach deiliaid bathodynnau glas.

   Cyhoeddir adroddiad manwl am ganfyddiadau'r ymgynghoriad ynghyd â'r papur penderfynu. Ystyrir yr adroddiad hwn ac Asesiad Effaith fel rhan o'r penderfyniad ar yr adeg y mae'n cael ei wneud.
2. Mae'r tabl isod yn dangos y ffordd y bu'r holl ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cefnogi pob dewis a gyflwynwyd. Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd sgorio'r opsiynau yn nhrefn eu dewis.

   Mae papur penderfynu Deiliad Portffolio'n cael ei baratoi ar hyn o bryd ac unwaith iddo gael ei gwblhau, byddaf yn ystyried yr adroddiad gyda chanlyniadau'r arolwg ac asesiad effaith. Yna, gwneir penderfyniad cytbwys a'r un gorau i'r Awdurdod hwn.

Ateb	**Wedi'i sgorio'n 1af**	**Wedi'i sgorio'n 2il**	**Wedi'i sgorio'n 3ydd**	**Wedi'i sgorio'n 4ydd**
Deiliaid bathodynnau glas yn talu'r un swm â phawb arall heb unrhyw gonsesiwn	46	65	53	**383**
Deiliaid bathodynnau glas sy'n parcio mewn lle i'r anabl yn cael gwneud	25	205	**265**	55

DRAFT

hynny am ddim. Bydd yn rhaid i'r rheini sy'n methu cael hyd i le o'r fath dalu i barcio heb unrhyw gonsesiwn ychwanegol (ar sail y cyntaf i'r felin)				
Deiliaid bathodynnau glas yn talu tuag at barcio ond yn cael awr ychwanegol am ddim ar ben yr amser a ddewisir	86	**253**	206	14
Deiliaid bathodynnau glas yn parhau i barcio am ddim. Chwilir yn rhywle arall am y £100,000 o arbedion.	**442**	30	24	91

Gofynnodd y Cynghorydd Roberts a fyddai Deiliad y Portffolio'n cefnu ar y cynnig i gyflwyno taliadau parcio i ddeiliaid bathodynnau glas a rhoddodd Deiliad y Portffolio wybod y byddai'r papur ar bolisi parcio oedd ar y gweill ar hyn o bryd yn nodi'r polisi ar y bathodynnau glas.

15.5. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Bobl Ifainc a Diwylliant gan y Cynghorydd Sir Roger Williams**

Pa waith y mae Cyngor Sir Powys wedi'i wneud i ddeall yn well y cynnydd mawr mewn Plant sy'n Derbyn Gofal yn yr Awdurdod?

Ymateb

Proses
Dros y 15 mis diwethaf, mae gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi ymdrin â nifer mawr o blant sydd newydd eu hatgyfeirio at y gwasanaeth yr oedd y risgiau yn eu cylch yn bodloni'r meini prawf i dderbyn gofal er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Nid penderfyniad a wneir gan yr awdurdod lleol ar ei ben ei hun yw hwn ac eithrio lle ystyrir bod risg yn y man a'r lle i'r plentyn a rhaid cymryd camau brys. Mae'r lefel amddiffyn yma'n gyfyngedig o ran amser a bydd unrhyw weithredu brys wedyn yn cael ei ystyried gan y Llys er mwyn sicrhau ein bod wedi cyrraedd y trothwy perthnasol. Gwnaethpwyd ceisiadau i'r Llys a wrandawodd ar y dystiolaeth o bryder gan gytuno ar geisiadau am Orchmynion Gofal.

Cyhoeddodd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Ddogfen Drothwy ym mis Hydref 2017 fel offeryn i gynorthwyo'r holl staff ar draws pob asiantaeth er mwyn asesu'r risgiau i blant a phryd y dylent eu hatgyfeirio at wasanaethau plant i'w hasesu. Mae hyn yn digwydd yn fwy cyson.

Rydym wedi gweld nifer o grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd ymhlith plant y bu angen iddynt ddod o dan ein gofal yn dilyn adolygiad o'r Cynlluniau Gofal a

DRAFT

Chymorth, tra oedd rhai plant yn byw gartref o dan amgylchiadau nad oeddent yn dderbyniol. Ystyriwyd eu bod mewn perygl o niwed neu esgeulustod. Erbyn hyn, ceir mwy o ymwybyddiaeth o effaith Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod ar blant ar eu prifiant ac oedolion ifainc ac mae'r sensitifrwydd helaethach yma ymhlith ein staff a staff mewn asiantaethau partner wedi arwain at well ymwybyddiaeth o anghenion ein poblogaeth sy'n agored i niwed a chamau gweithredu cynt a mwy priodol yn ei sgil.

Gweithredu gan Gyngor Sir Powys
Mae'r Awdurdod wedi datblygu Fframwaith Strategol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Bydd hwn yn datblygu nifer o themâu a ffrydiau gwaith i leihau mewn ffordd ddiogel niferoedd y plant sy'n derbyn gofal dros y blynyddoedd i ddod, drwy leoli mwy o blant ym Mhowys gyda'n gofalwyr maeth a darparwyr preswyl lleol gan ddod â phlant yn nes adref i helpu i gefnogi ailsefydlu lle bo'n briodol.

Mae Gwasanaethau Plant hefyd wedi datblygu Panel Mynediad i Adnoddau sy'n ystyried pecynnau cymorth i blant sydd ar ffiniau gofal neu i gefnogi plant mewn gofal i dderbyn y gwasanaeth derbyn gofal gorau neu i'w helpu i ddychwelyd adref yn ddiogel.

Byddwn yn parhau i gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd drwy ddatblygu ymhellach gymorth cynnar a gwasanaethau ar ffiniau gofal ar y cyd â'n hasiantaethau partner gan gynnwys ysgolion. Mantais y mentrau hyn fydd sicrhau y bydd popeth yn cael ei ystyried gyda'r teulu cyn derbyn plant i ofal (ac eithrio lle mae angen cymryd camau gweithredu brys), er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r atebion a chymorth cymunedol a theuluol gorau a bod pob llwybr yn cael ei ystyried cyn i blant ddod o dan ein gofal. Fel hyn, byddwn yn siŵr mai dim ond y plant iawn sydd mewn gofal a gallwn gomisiynu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion yn y tymor byr a hir.

Bydd Fframwaith arferion newydd o'r enw Arwyddion Diogelwch yn cael ei roi ar waith fel rhan o gynlluniau ar gyfer arferion i'r dyfodol yma ym Mhowys. Mae'r broses weithredu yma eisoes wedi dechrau yn ystod 2018. Mae'r dull yma'n seiliedig ar yr ethos bod i bob teulu ei gryfderau a dylai plant aros lle bynnag bo'n bosibl yn eu cymunedau eu hunain. Bydd hyn yn gofyn uchelgais parhaus fel y gall plant gael eu gofalu amdanynt gan eu rhwydweithiau teuluol. Mae hefyd a wnelo â chreu sefydliad dysgu a fydd yn rhannu ac yn cario'r risg gydag ymarferwyr er mwyn i'r cynlluniau hyn fod yn ymarferol effeithiol.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Williams oedd gofyn, o gofio'r cynnydd yn niferoedd y plant sy'n derbyn gofal, a fyddai Deiliad y Portffolio'n cytuno y dylid cael adolygiad allanol sydyn o safon a chadernid y broses benderfynu. Yn absenoldeb Deiliad y Portffolio byddai ymateb yn cael ei anfon at y Cynghorydd Williams, gyda chopi at holl aelodau'r Cyngor.

15.6. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Economi a Chynllunio gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan**

O gofio'r cynnig a basiwyd gan y Cyngor hwn y llynedd yn pwysleisio'r angen i gynyddu canran y nwyddau a gwasanaethau a brynir o Bowys, a allwn ni gael adroddiad am y sefyllfa ddiweddaraf?

Ymateb

DRAFT

Rhoddodd Deiliad y Portffolio wybod bod y swm a wariwyd gyda busnesau ym Mhowys wedi codi tua £10 miliwn. Gofynnodd y Cynghorydd Vaughan i'r ffigyrau fod ar gael i'r holl aelodau.

15.7. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Ddysgu a'r Gymraeg gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt**

O 1 Hydref 2018 mae Cyngor Sir Powys yn tynnu'n ôl o'r Cynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol ac ni fydd bellach yn gwneud ceisiadau i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig am y cymhorthdal llaeth ysgol ar ran ysgolion cynradd y sir. O'r dyddiad hwnnw, bydd ysgolion cynradd yn gorfod gweinyddu'r cynllun a hawlio'r cymhorthdal eu hunain os ydynt am aros yn y cynllun.
Gan ragdybio mai hi a wnaeth y penderfyniad, a allai Deiliad y Portffolio gadarnhau neu fel arall a wnaeth hi Asesiad Effaith cyflawn i ganfod yr effaith y bydd y newid hwn yn ei chael ar nifer yr ysgolion sy'n ymgymryd â'r cymhorthdal llaeth a darpariaeth llaeth am ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd Powys cyn gwneud y penderfyniad hwn?

Ymateb
Gwnaethpwyd y penderfyniad i ddatganoli gweinyddiaeth y Cymhorthdal Llaeth Ysgol am ddim i'r ysgolion cynradd unigol gan yr Arweinydd Proffesiynol ar Arlwyo a Glanhau, gydag achos busnes i Bennaeth y Gwasanaeth Hamdden a'r Pennaeth Dysgu Dros Dro.
Ni chafodd unrhyw asesiad effaith ei gwblhau i hyn oherwydd bod yr achos busnes yn manylu ar y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwn. Mae'r ysgolion eisoes yn cwblhau 70% o'r broses drwy gyflwyno eu harchebion wythnosol i'r cyflenwyr llaeth a dychwelyd ffigyrau eu ceisiadau misol i'r gwasanaeth arlwyo i'w crynhoi. Y tasgau ychwanegol a fydd yn cael eu datganoli i'r ysgolion fydd talu'r cyflenwyr llaeth am unrhyw laeth a dderbynnir a chyflwyno ceisiadau i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig a'r Uned Ad-daliadau Llaeth Meithrin yn ogystal ag unrhyw gostau gweinyddol eraill i'w hawlio (amser gweinyddol, oeri, trydan).
Yn ôl Llywodraeth Cymru, llaeth yw'r ddiod a gymeradwyir o dan Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion 2013, ond nid oes raid i ysgolion gymryd rhan yn y cynllun llaeth ysgol. Yr ysgol unigol biau'r penderfyniad. Felly, nid yw darparu llaeth yn rhwymedigaeth statudol; fodd bynnag, rhoddwyd gwybod i bob ysgol mai cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru yw hwn ac mae buddion llaeth i iechyd plant ar eu prifiant wedi cael eu pwysleisio. Dyma'r effaith ar y disgyblion os bydd yr ysgolion yn penderfynu peidio â chyfranogi o'r cynllun.
Oherwydd y newidiadau wrth brosesu'r ceisiadau gan yr asiantaethau dros y 12 mis diwethaf, bu'n rhaid i ysgolion cynradd gofrestru'n unigol gyda'r Uned Ad-daliadau Llaeth Meithrin a chyflwyno ffigyrau eu ceisiadau misol i'r Uned hefyd. Ni chaniateir i'r gwasanaeth arlwyo weld y ffigyrau hyn, er mai'r gwasanaeth arlwyo sy'n talu'r cyflenwyr ar sail yr archebion. Yn ddieithriad, nid yw'r niferoedd a hawlir wedi cyfateb i'r maint sydd wedi'i archebu ac mae'r ffigur a hawlir sy'n cael ei ad-dalu i'r gwasanaeth arlwyo wedi bod yn brin o hyd. Felly, mae'r mater wedi'i godi fel risg oherwydd colled ariannol a gallai gael ei archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru.
Mae'r gwasanaeth arlwyo wedi cefnogi'r ysgolion drwy gydol y newid yma a thu hwnt a bydd yn parhau i wneud hynny ac mae eisoes yn darparu canllawiau gyda chwestiynau cyffredin a manylion cyswllt. Hefyd, mae'r dyddiad cau i

DRAFT

ysgolion gofrestru wedi'i estyn i 1 Tachwedd 2018 i adael i ysgolion ddeall y broses.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Gibson-Watt, cadarnhaodd Deiliad y Portffolio y byddai niferoedd yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn cael eu monitro.

15.8. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Gyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton**

Goblygiadau ariannol hirdymor prosiectau sydd eisoes yn bodoli ac sy'n dibynnu ar gymorth ariannol Ewropeaidd a sut y bydd y bylchau'n cael eu pontio.

A all Deiliad y Portffolio roi awgrym i'r Cyngor ynglŷn â pha brosiectau a ariennir ar hyn o bryd gan gyllid cyfatebol uniongyrchol neu gysylltiadau ariannu Ewropeaidd eraill â phrosiectau lleol ar draws Powys, fel gwelliannau i'r priffyrdd, prosiectau yng Ngwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau i Oedolion a Phlant), prosiectau cyfalaf a phrosiectau seilwaith?

Pa gynlluniau sydd yn eu lle i sicrhau dilyniant gwasanaeth yn y tymor hir dros y blynyddoedd nesaf?

Ymateb
Nid oes gan Gyngor Sir Powys unrhyw raglen gyfalaf a ariennir drwy grant Ewropeaidd. Fodd bynnag, ceir dau brosiect refeniw sy'n derbyn Cyllid Grant Ewropeaidd.

- Teuluoedd yn Gyntaf/Cynnydd - Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Integredig newydd sydd â chyllid o £834,448, gyda £208,612 yn dod o'r Undeb Ewropeaidd.

- Y Prosiect Cartrefi o Bren Cynhenid sy'n derbyn £1,511,144 gan y Gronfa Datblygu Rhanbarthol ar gyfer y prosiect Astudiaeth o'r Gadwyn Cyflenwi Coed.

Mae'r meysydd gwasanaeth dan sylw'n ymwybodol o'r risg bosibl o golli'r cyllid yma ac yn ystyried eu dewisiadau pe bai hyn yn digwydd. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda sefydliadau ariannu i ddeall pryd y gallai'r cyllid ddod i ben. Mae dewisiadau, gan gynnwys strategaethau gadael posibl, yn cael eu hystyried.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Charlton, dywedodd Deiliad y Portffolio y byddai'n edrych eto i weld a oedd y cyngor yn derbyn unrhyw grantiau Ewropeaidd eraill.

15.9 Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan

Y Gaer
Yn wyneb rhestru'r prosiect yma fel un Risg Uchel i'r awdurdod, a allwn ni gael diweddariad am y prosiect gan gynnwys unrhyw gostau ychwanegol sydd wedi'u codi?

DRAFT

Ymateb
Yn ôl y rhaglen, disgwylid y byddai'r holl brif waith contract gan Kier wedi'i orffen yn y Gaer, yn wreiddiol erbyn mis Awst, ond bellach erbyn diwedd mis Hydref 2018, gyda gosod dodrefn i ddilyn. Y gobaith oedd y gallai CSP gymryd drosodd y tu mewn i'r adeilad yn ei grynswth gan gwblhau'n ymarferol ond gydag elfen o waith heb ei gorffen yn y darn sy'n weddill o'r gorchudd allanol (o gwmpas rhan y ffrâm bictiwr o'r wedd ddeheuol) yn cael ei gorffen yn nes ymlaen – i gyd wedi'i ardystio dan gontract. Buasai hyn wedi caniatáu cwblhau'r gwaith gosod dodrefn mewn pryd o bosib i'w hagor adeg y Nadolig. Fodd bynnag, wrth i'r oedi gynyddu, aeth yr amser oedd yn weddill i osod dodrefn a mudo'n rhy dynn a phenderfynwyd, er mwyn rheoli'r contractau gosod dodrefn, mudo a dechrau'r gwasanaeth yn y ffordd orau, byddai'n rhaid gohirio'r agor tan y Flwyddyn Newydd. Nid y gorchudd sy'n gyfrifol am yr oedi wrth agor ond yr oedi cyffredinol o ran y prif waith a sgileffeithiau hynny.

Cyflwynwyd nodyn briffio i Fwrdd Prosiect y Gaer 20 Awst i roi gwybod am yr oedi a chael sêl bendith i symud dyddiad cwblhau arfaethedig gwaith Kier i 1 Hydref ac felly'r dyddiad agor i'r flwyddyn newydd. Cyhoeddwyd nodyn briffio arall 25 Medi 2018 i adrodd am yr oedi diweddaraf gan amcanu y byddai'r prif waith yn cael ei orffen erbyn diwedd Hydref 2018.
(Gellir darparu copïau o'r nodion briffio hyn ar gais).

Ni fydd dim o hyn yn effeithio ar gostau'r prosiect, gan fod swm y contract wedi'i bennu.

Gofynnodd y Cynghorydd Vaughan am gopi o'r diweddariad.

15.10 Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

Sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod pobl ifainc yn derbyn prydau bwyd iach a maethlon gytbwys mewn ysgolion ar draws Powys?

Ymateb
1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Mae'r Gwasanaeth Arlwyo yng Nghyngor Sir Powys yn darparu ar gyfartaledd 8000 o brydau ysgol bob dydd ar draws 96 o ysgolion ym Mhowys sy'n cynnwys ar gyfartaledd 1200 o brydau ysgol am ddim bob dydd y mae rhwymedigaeth statudol arnom i'w darparu.

1.2 Ceir canllawiau statudol ar ddarparu prydau ysgol gan Lywodraeth Cymru a dylai ysgolion, cyrff llywodraethu a darparwyr prydau ysgol pob awdurdod lleol lynu wrthynt. Nodir hyn ym Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009.

1.3 Ceir tystiolaeth glir bod deiet gwael a diffyg ymarfer cymedrol yn cael effaith ar iechyd a lles ac yn ffactor sy'n cyfrannu at y niferoedd dros eu pwysau a gordew yn ein cymdeithas heddiw. Mae pryd ysgol iach yn darparu deiet cytbwys i blant a phobl ifainc gan hybu arferion bwyta iach a rhyngweithio cymdeithasol yn y ffreuturau. Mae wedi'i brofi bod prydau

ysgol hefyd yn hybu lefelau canolbwyntio a chyrhaeddiad uwch yn y dosbarth yn y prynhawn.

1.4 Bydd ein gwasanaeth arlwyo yn cydweithio ag ysgolion a chydweithwyr BIAP i hybu bwyta'n iach a chefnogi ysgolion i gyrraedd yr achrediad Ysgolion Iach. Mae'r gwasanaeth yn hybu'r dull ysgol gyfan gan sicrhau cyfraniad penaethiaid a staff i hyrwyddo a mabwysiadu bwyta'n iach a ffyrdd iach o fyw mewn ysgolion. Mae'n mynychu sesiynau bwyta'n iach gyda disgyblion, yn trefnu cyfarfodydd â chynghorau ysgol disgyblion i drafod bwydlenni ysgol a dewisiadau bwyd ac yn mynychu nosweithiau rhieni gan ddarparu gwybodaeth am brydau ysgol a dangos samplau o giniawau'r ysgol.

1.5 Ar hyn o bryd, cost gyfartalog yr elfen o fwyd yn y pryd yw 85c; cost uchaf pryd o fewn y fwydlen 3 wythnos yw £1.69 am gig eidion rhost a'r gost isaf yw 54c, sef pasta. Mae'r costau cyfartalog hyn yn seiliedig ar y pryd poeth gan gynnwys pwdin ac nid ydynt yn adlewyrchu'r gost go iawn gan fod y nifer sy'n derbyn y prydau'n amrywio o ddydd i ddydd.

2 Dadansoddiadau Maeth

2.1 Mae ein Gwasanaeth Arlwyo'n cyflogi swyddog monitro a datblygu bwydlenni y mae ei brif rôl yw datblygu ein bwydlenni prydau ysgol. Yn y ddeddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru, mae'r canllawiau'n eithaf llym gan bennu beth gallwn ei gael a pheidio â'i gael ar fwydlenni ein hysgolion h.y. does dim melysion, halen ychwanegol, creision na diodydd egni ar ein bwydlenni. Mae'r safonau bwyd hyn wedi cael eu dosbarthu i bob ysgol a'u cynhyrchu ar ffurf poster sydd ar ddangos yn ffreuturau ysgolion. Posteri Bwyta'n Iach mewn Ysgolion

2.2 Fel rhan o ddatblygiad ein bwydlenni prydau ysgol sy'n cael eu newid ddwywaith y flwyddyn, adeg y Pasg fel arfer ar gyfer y gwanwyn a'r haf ac wedyn ym mis Hydref ar gyfer y gaeaf, bydd ein swyddog datblygu bwydlenni'n trafod dewisiadau bwydlenni gyda'r rheolwyr arlwyo a chogyddion ysgol. O'r trafodaethau hyn mae cylchred bwydlen 3 wythnos yn cael ei drafftio ac wedyn ei dadansoddi gan ddefnyddio darn o feddalwedd o'r enw Saffron.

2.3 Bydd meddalwedd Saffron yn dadansoddi 14 o faethynnau ar draws y fwydlen wythnosol; rhaid i'r graffiau wythnosol hyn ddangos cynnwys maeth derbyniol (gwyrdd) yn y seigiau neu fel arall rhaid cael hyd i saig arall neu'i chreu i gyrraedd y lefelau maeth cywir. Enghraifft dda i gynyddu'r cynnwys haearn oedd creu rysáit am sbwnj siocled ond ychwanegu betys sy'n llawn haearn at gymysgedd y sbwnj.

2.4 Unwaith i gylchred 3 wythnos y fwydlen gael ei chwblhau fe'i hanfonir at y cydlynydd Bwyd mewn Ysgolion yn y CLILC er cydymffurfiaeth ac ardystio. Yna gellir ei chyhoeddi a'i defnyddio yn ein hysgolion.

3 Deddfwriaeth

3.1 Gellir gweld canllawiau a rheoliadau statudol Llywodraeth Cymru ar y dolenni canlynol: Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Safonau a Gofynion Maeth) (Cymru) 2013
Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009
Bwyta'n Iach mewn Ysgolion a Gynhelir – Canllawiau Statudol

DRAFT

3.2 Mae llywodraethu ar gyfer y rheoliadau hyn yn cael ei fonitro gan Gydlynydd Bwyd mewn Ysgolion CLILC sydd fel arfer yn cynnal cyfarfodydd trawsffiniol trimisol i drafod pynciau sy'n ymwneud â bwyta'n iach a darpariaeth ar gyfer deietau arbennig ac yn y blaen. Fodd bynnag, at ei gilydd, gwasanaeth arlwyo'r awdurdod lleol sy'n monitro ac yn cynnal safonau'r bwyd.

4 Caffael Bwyd

4.1 Mae Cyngor Sir Powys wedi cytuno i ddefnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer contractau fframwaith, gyda darparu bwyd yn un o'r rhain. Ar hyn o bryd, ein prif ddosbarthwr bwyd yw Holdsworth Cyf. a leolir yng Nghrucywel ac sy'n darparu cynnyrch bwyd rhew, oer ac amgylchynol sych i'n holl ysgolion ym Mhowys. Ceir cynnyrch Powys sydd wedi'i leoli yn Ffordun ger y Trallwng ac sy'n dosbarthu ffrwythau, llysiau a llaeth i'n hysgolion yng ngogledd y sir ac wedyn cynnyrch Total a leolir yn Henffordd ac sy'n dosbarthu'r un pethau i'n hysgolion yng nghanolbarth a de'r sir. Mae Radnor Hills, cyflenwr o Bowys a leolir yn Nhrefyclo'n dosbarthu dŵr a diodydd ffrwythau i'n hysgolion uwchradd.

4.2 Rydym yn ceisio cymaint ag sy'n bosibl ddefnyddio cynnyrch o Gymru fel Radnor Hills a daw ein holl selsig o Langford's a leolir yn y Trallwng. Mae ein holl gynnyrch cig wedi'i ardystio gan Red Tractor, felly cynnyrch o Brydain ydyw, gyda'r holl bysgod yn dod o ffynonellau cynaliadwy sydd ag ardystiad yr MSC. Hoffem ddefnyddio cyflenwyr lleol o Bowys ond byddai'n rhaid i ni gael hyd i ffynhonnell cynhyrchion addas sy'n cydymffurfio â gofynion ysgolion ac a fyddai'n gorfod gwneud cais i fynd ar fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a gallu dosbarthu i bob un o'n hysgolion yn y sir neu gyflenwi ein dosbarthwr Holdsworth. Byddai hyn yn costio a fyddai yn ei dro'n cynyddu prisiau prydau ysgol.

5 Monitro

5.1 Yn rhan o'n prosesau archwilio mewnol, staff cymorth ein gwasanaeth arlwyo sy'n monitro ceginau ysgol yn rheolaidd, nid yn unig i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn yn unol â gwiriadau iechyd yr amgylchedd, ond hefyd bod y cynhwysion, ryseitiau a dognau cywir yn cael eu defnyddio yn unol â bwydlen ein hysgolion.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance oedd beth gallai'r gwasanaeth ei wneud yn ychwanegol i annog plant i wneud dewisiadau iachach. Dywedodd Deiliad y Portffolio fod y system heb arian parod yn rhoi gwybodaeth dda am y dewisiadau sy'n cael eu gwneud. Roedd yn rhaid ymgysylltu'n fwy ag ysgolion i wneud gwelliannau pellach.

15.11 Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance

Mae dros flwyddyn ers i reoleiddwyr y Cyngor arolygu Gwasanaethau Plant a chanfod diffygion difrifol. Mae adroddiad perfformiad diweddaraf y Gwasanaeth Plant (Awst 2018) yn dangos nad yw'r Cyngor yn cyflawni yn erbyn y pum dangosydd perfformiad uchaf.
A wnaiff yr Arweinydd esbonio i'r Cyngor pam, flwyddyn yn ddiweddarach, nad yw ei gweinyddiaeth o hyd yn darparu gwasanaethau digonol i blant, pobl ifainc a theuluoedd ym Mhowys?

Ymateb

DRAFT

Ers canlyniad siomedig yr adroddiad arolygu y llynedd, mae'r awdurdod wedi blaenoriaethu ei ymdrechion i ateb yr her i wella'r gwasanaethau i blant sy'n agored i niwed.
Yn ystod yr amser yma, rydym wedi gweld cynnydd cyson a sylweddol o ran cydymffurfiaeth o isafbwynt o 12% o ymweliadau statudol â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu cwblhau ar amser ym mis Mawrth y llynedd a 28% ym mis Ebrill 2017 nes gwella ein perfformiad i dros 80 y cant ar amser dros yr haf.

Rydym wedi rhoi dogfen drothwy (rhanbarthol) CYSUR ar waith a gyhoeddwyd ym mis Hydref y llynedd gan gyflwyno hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth gyda'n partneriaid i sicrhau bod trothwyau cyffredin gennym ar gyfer cefnogi ac ymyrryd lle bo angen i hyrwyddo a diogelu lles plant.

Mae gan wasanaeth plant yr awdurdod fframwaith Sicrwydd Ansawdd yn ei le sy'n ymgysylltu â rheolwyr ar draws y gwasanaeth gan ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd i ystyried effaith ein hymyriadau.

Nid oedd gan yr awdurdod fawr o ddata perfformiad cywir i wasanaethau plant yn 2017 ond nid felly y mae bellach. Dangoswyd nad oedd yr wybodaeth yr oedd gennym yn ystod y flwyddyn gynt yn ddibynadwy ond mae'r gwaith ar draws gwasanaethau plant a gwybodaeth fusnes wedi gwella pethau'n sylweddol.

Y camau a gymerwyd i gryfhau'r gwasanaeth.
Penodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol parhaol
Penodi Pennaeth Gwasanaethau Plant parhaol
Penodi Rheolwr Sicrwydd Ansawdd
Sefydlu'r tîm asesu peilot yn y gogledd a'r de i ddarparu asesiadau amserol a chanolbwyntiedig i blant a'u teuluoedd.
Archwiliadau allanol gan archwilwyr (gwarantedig gan yr Adran dros Addysg) ynghynt eleni.
Cynhelir archwiliadau amlasiantaeth mewn nifer o achosion.
Mae Aelodau Cynulliad yn sôn bod llai o achosion pryder yn dod i'w sylw.
Mae gennym raglen archwilio rheolaidd gan ein rheolwyr ac uwch-reolwyr.
Mae goruchwyliaeth staff yn ei lle.
Rydym wedi cael 3 ymweliad monitro gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) oedd yn dangos ar bob achlysur welliannau i agweddau ar y gwasanaeth, gan dderbyn bod gennym lawer iawn yn rhagor i'w wneud eto ar y siwrnai yma at welliant.
Partneriaethau gweithio cryfach â chydweithwyr Iechyd a'r Heddlu, ysgolion a chydweithwyr y gwasanaeth Addysg i ddarparu dulliau sy'n fwy cynlluniedig a chydlynol.
Rydym wedi sefydlu panel mynediad i adnoddau sy'n ystyried yn ofalus y pecynnau gofal sy'n ofynnol i blant ag angen uchel a thrwy ein Partneriaethau Amlasiantaeth yn cytuno ar leoliadau lle mae gan blant anghenion lluosog a chymhleth.
Rydym wedi datblygu ein cynnig cymorth cynnar amlasiantaeth o dan Dechrau Da ac wedi datblygu model i gefnogi pobl ifainc gan ddatblygu gwasanaethau mwy soffistigedig i blant sydd ar ffiniau gofal.
Rhaglen hyfforddi i staff.
Rydym wedi recriwtio rhagor o ofalwyr maeth gyda'r bwriad o recriwtio mwy a datblygu rhywfaint o ddarpariaeth gofal maeth arbenigol.
Fframwaith Strategol wedi ei ddatblygu i blant sy'n derbyn gofal i ddarparu cynllun i gyflwyno mwy o wasanaethau a gwell gwasanaethau i blant o'r fath dros y blynyddoedd i ddod.

DRAFT

Rydym yn uchelgeisiol dros ein plant sy'n derbyn gofal ac mae ailsefydlu'r Grŵp Rhianta Corfforaethol yn adeiladu ar hyn oherwydd ein bod am eu gweld yn ffynnu.

Canlyniadau i Blant

Rydym yn parhau i ddiogelu mwy o blant drwy'r gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal.
Mae ein trefniadau gweithio drwy'r gwasanaethau Diogelu gyda phartneriaid wedi cael eu cryfhau.
Rydym wedi ailsefydlu'r trefniadau diogelu amlasiantaeth drwy Grŵp Gweithredu Lleol Powys.
Rydym wedi ailsefydlu'r berthynas weithio â'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol (CYSUR).
Rydym wedi cryfhau'r gweithlu i ateb galwadau'r gwasanaeth ac anghenion plant.
Er na chyrhaeddon ni'r targedau rydym wedi'u gosod o ran ymgymryd ag ymweliadau â'r holl blant sy'n derbyn gofal a phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ym mis Awst, gallaf gadarnhau bod yr holl blant oedd angen ymweliad ym mis Medi wedi derbyn un, gydag ychydig o eithriadau lle y cytunwyd i beidio ag ymweld â'r teulu oherwydd problemau mawr yn ymwneud â salwch a phrofedigaeth, er enghraifft. Ad-drefnwyd yr holl ymweliadau hyn o fewn cyfnod byr.

Gwyddom ein bod gyda'r gefnogaeth gydgysylltiedig ar draws y Cyngor gan y timau Polisi a Pherfformiad, AD, TG, Cyllid a Gwasanaethau Oedolion, wedi creu'r sylfeini a rhai gwelliannau sylweddol i blant a'u teuluoedd a derbyniwn ein bod ar daith i barhau i wella a sicrhau bod Powys yn lle gwych i dyfu i fyny ynddo ac yn lle gwych i staff weithio ac ymfalchïo ynddo.

Parheir i wneud gwelliannau cynaliadwy ac rydym yn dal i fod â disgwyliadau mawr y bydd y cyngor cyfan yn gwneud popeth a allwn ni i wella bywydau plant a'u teuluoedd.

Bydd arolwg cyfredol AGC yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf yn rhoi asesiad annibynnol newydd i ni o'n taith welliannau i ddarparu gwasanaethau o safon i blant a chroesawn y cyfle yma i ystyried ein camau nesaf i bob aelod a swyddog eu cymryd i adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd hyd yn hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance yn gofyn a fyddai hi'n ymddiswyddo, dywedodd yr Arweinydd ei bod yn falch o'r ffordd yr oedd y Cyngor wedi ymateb i'r arolwg o Wasanaethau Plant gan nodi mai cyfrifoldeb pob Cynghorydd yw Gwasanaethau Plant.

15.12. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Susan McNicholas**

Mae wedi dod i'n sylw yn Ystradgynlais fod Safleoedd Dod â Gwastraff mewn ardaloedd eraill yn dal i gael eu defnyddio. Dywedwyd wrthym, er mwyn i'n safle ailgylchu aros yn agored, fod yn rhaid i ni gytuno i gau ein safleoedd.
Dydyn ni ddim am i safleoedd eraill gau ond rydym am gael ein trin yn

DRAFT

gyfartal. A all Deiliad y Portffolio ddweud wrthym beth yn union yw'r sefyllfa?

Ymateb
Yn wreiddiol cyflwynwyd Safleoedd Ailgylchu (Dod â Gwastraff) Cymunedol flynyddoedd lawer yn ôl i roi rhywle i breswylwyr i fynd â'u deunydd ailgylchadwy. Roedd hyn cyn cyflwyno'r cynllun ailgylchu wrth ymyl y ffordd sydd wedi darparu dewis mwy cyfleus o lawer i'r rhan fwyaf o breswylwyr. Mae'r holl safleoedd dod â gwastraff yma wedi bod yn destun adolygiad oherwydd yn y bôn maent wedi dyblygu gwasanaeth sydd bellach yn cael ei ddarparu mewn ffordd wahanol. Mae nifer y safleoedd wedi cael ei leihau o dros 80 i lai na 40, gyda'r safleoedd sy'n weddill yn cael eu hystyried ar hyn o bryd fel y gall y Cyngor ddarparu'r gwasanaeth cyfleus mwyaf costeffeithiol i breswylwyr wrth sicrhau y cesglir cymaint o ddeunydd ag sy'n bosibl i'w ailgylchu.
Y rheswm pam mae'r safleoedd wedi cael eu tynnu yn Ystradgynlais yw oherwydd erbyn hyn mae Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref (CAGC) gyfleus yn yr ardal a fydd yn derbyn yr holl ddeunydd a arferai gael ei gasglu yn y safleoedd dod â gwastraff ac o lawer o ffrydiau gwastraff eraill i'w ailgylchu. Nid oedd cynnal y CAGC yng Nghwm-twrch Isaf yn ddibynnol ar gael gwared â'r safleoedd dod â gwastraff, ond mae'n hanfodol ein bod yn gwneud y gorau o'n hadnoddau cyfyngedig er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn.
Mae pob un o'r safleoedd dod â gwastraff ym Mhowys yn cael ei ystyried yn unigol, gan edrych ar ffactorau megis bod yn agos i CAGCau, lefel y tipio anghyfreithlon a halogi, yn ogystal â lle mae'r deunyddiau bellach yn cael eu casglu wrth ymyl y ffordd. Yn anffodus, roedd y safleoedd yn Ystradgynlais yn tueddu i gael eu halogi, gyda llawer o'r deunydd hwn yn cael ei dirlenwi yn hytrach na'i ailgylchu. A'r CAGC gerllaw, cafodd y cyfleusterau hyn eu gwaredu. Yn yr un modd, yn y Trallwng, lle'r oedd problem gyda thipio anghyfreithlon ar y safle dod â gwastraff, gofynnir bod preswylwyr yn defnyddio eu CAGC ar gyfer deunyddiau na ellir eu hailgylchu wrth ymyl y ffordd.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd McNicholas ynglŷn â pham cafodd y safle dod â gwastraff ei waredu heb ymgynghori lle bu ymgynghori mewn ardaloedd eraill, dywedodd Deiliad y Portffolio fod Ystradgynlais yn elwa ar Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref a byddai cynllun casglu gwastraff gwyrdd yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 2019.

15.13. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cyngorydd Sir Gareth Ratcliffe**

Yn gynt eleni cododd Deiliad y Portffolio dros Briffyrdd ar y pryd y moratoriwm ar orchmynion traffig ar draws y sir. Er bod cymuned y Gelli'n deall bod goblygiadau ariannol difrifol ar gyfer cyllideb Cyngor Sir Powys oherwydd toriadau mewn cyllid a chostau uwch ar draws gwasanaethau'r Cyngor, mae'n bwrw cyllidebau fel cyllideb priffyrdd yn galetach oherwydd nad gwasanaeth statudol ydyw. Dros y flwyddyn neu ddwy nesaf bydd datblygiadau mawr yn y gymuned a fydd yn cynnwys codi gorchmynion traffig ar eu cyfer. A fydd Deiliad y Portffolio'n cefnogi Cyngor Tref y Gelli a'r gymuned leol drwy ymgysylltu â nhw cyn i unrhyw orchmynion gael eu codi i gefnogi cynllun y dref o ran lleihau cyflymdra traffig ynghyd â gorchmynion traffig i gefnogi trafnidiaeth ddiogel o gwmpas y dref?

DRAFT

Ymateb
Er gwybodaeth, mae gan Gyngor Sir Powys fel yr Awdurdod Priffyrdd ddyletswydd statudol i gynnal y briffordd.
Anogir datblygwyr i drafod cynigion gan gynnwys materion traffig â'r Cyngor, ac fel arfer maent yn gwneud hynny, cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio neu geisiadau am orchmynion rheoleiddio traffig ac yn yr achos hwn, byddai barn aelodau lleol a'r gymuned yn cael ei hystyried a'i chefnogi lle bo'n bosibl.
Fel rhan o'r broses caniatâd cynllunio, ystyrir materion yn ymwneud â phriffyrdd yn ffurfiol ac mae'r materion sy'n effeithio ar drefi a chymunedau'n hanfodol i'r ystyriaethau hyn ynghyd â, o ran materion traffig ac yn y blaen, meini prawf a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn ystod y broses hon, ceisid am y budd mwyaf o fewn rheswm i'r briffordd ac at ei gilydd cymerai'r aelod lleol ran yn y trafodaethau.
Lle mae gorchmynion rheoleiddio traffig (GRhT) yn ffurfio rhan o'r broses, bydd swyddogion yn ymgynghori â'r aelod(au) lleol a hefyd, os yn briodol, y Cyngor Tref neu Gymuned. Fel hyn, ein nod yw sicrhau y bydd y cynigion yn gyffredinol yn cael eu derbyn gan y gymuned cyn i'r ymgynghoriad cyhoeddus gael ei gynnal. Byddai unrhyw wrthwynebiadau hefyd yn arwain at drafodaethau pellach â'r Aelod Lleol i gynorthwyo wrth lunio'r argymhelliad terfynol ar gyfer fy mhenderfyniad.
Er gall yr Aelod Lleol helpu i lunio'r GRhT, mae'r penderfyniad a all GRhT mewn gwirionedd fod yn amod unrhyw gymeradwyaeth gynllunio'n fater i'r Awdurdod Priffyrdd ei wneud ar sail beth sydd ei angen i'r datblygiad yn dilyn yr arferion gorau, canllawiau cyhoeddedig a deddfwriaeth. Nid yw'r rhan hon o'r broses yn caniatáu ymgynghori ond byddai'r broses gwneud cais cynllunio'n caniatáu i unrhyw un wneud sylwadau ar y datblygiad fel rhan o'r broses gynllunio.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

15.14. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe.**

Mae trigolion y Gelli Gandryll yn croesawu'r symud ymlaen o ran adnewyddu'r canllawiau ar bont y Gelli. Dyma rywbeth y mae cyngor y dref a finnau wedi bod yn gwthio amdano ers blynyddoedd lawer i ddiweddaru un o'r pyrth i'n cymuned dros afon Gwy a'i wneud yn ddiogel. A all Deiliad y Portffolio gadarnhau bod y cyngor yn bwriadu dechrau gwaith arnynt yn y flwyddyn ariannol hon?

Ymateb
Mae cynllun i ymdrin â chyflwr canllawiau Pont y Gelli wedi'i gynnwys yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2017/2018. Yn wreiddiol, cynigiwyd ailwampio'r canllawiau presennol; fodd bynnag, yn dilyn ymchwiliad manylach, penderfynwyd ei bod yn fwy buddiol eu hadnewyddu. Mae'r gwaith i adnewyddu'r canllawiau wedi'i drefnu i'w gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon a rhagwelir dechrau yn gynnar arno yn y flwyddyn newydd.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

DRAFT

15.15. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Lywodraethu Corfforaethol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Mark Barnes**

Mae Powys wedi cael tipyn o lwyddiannau'n ddiweddar wrth erlyn masnachwyr twyllodrus ym Mhowys a rhaid rhoi clod i'r swyddogion sy'n helpu i gadw ein strydoedd yn ddiogel. A all Deiliad y Portffolio ddweud faint o arian sydd wedi'i godi o enillion troseddu?

Ymateb
Golyga gwaith enillion troseddu ddwyn asedau oddi ar droseddwyr sydd wedi twyllo ein defnyddwyr. Mae unrhyw arian sy'n cael ei adennill yn mynd yn syth i system o'r enw JARD a weinyddir gan y Swyddfa Gartref. Ers i ni ddechrau ar y gwaith hwn yn 2014, mae rhyw £349,014.83 wedi cael ei gofnodi dan enw Powys ar JARD, gyda rhywfaint o hyn yn mynd fel iawndal i ddioddefwyr. Mewn rhai achosion, rydym yn derbyn canran o dan gynllun a reolir gan y Swyddfa Gartref (38.5%). Mewn achosion lle mae iawndal dan sylw, mae'r holl arian yn mynd i'r dioddefwyr. Mae gennym un ymchwilydd ariannol achrededig yn gwneud y gwaith yma.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Barnes yn gofyn am sicrwydd y byddai'r Cabinet yn parhau i ddangos arweinyddiaeth gref yn y maes yma, cadarnhaodd Deiliad y Portffolio y byddai hyn yn aros yn flaenoriaeth i'r Cabinet.

15.16. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton**

Rwyf yn ceisio gwybodaeth am y broses ar gyfer gwneud cais am Orchmynion Traffig Ffyrdd gan nad yw'r Pwyllgorau Sirol bellach yn bodoli. Mae'r Cynghorydd Davies wedi bod o help mawr wrth geisio mynd ar ôl mater lleol i mi yn Llangatwg ac mae'n parhau i gefnogi fy ngheisiadau rheolaidd am ddiweddariad. Yn anffodus, nid yw'n gallu darparu un a deallaf y gall hyn fod yn wir i Gynghorwyr eraill. A allai'r Cynghorydd Davies gadarnhau yr ymdrinnir â Gorchmynion Traffig Ffyrdd, sut mae'r broses yn gweithio a sut yn gyffredinol y gellir rhoi syniad i gynghorwyr lle yn y system y mae eu hymholiadau unigol?

Ymateb
Erbyn hyn, gellir ystyried ceisiadau am bob gorchymyn traffig yn dilyn codi'r moratoriwm nad oedd hyd yma ond yn caniatáu mynd â gorchmynion cyfyngu ar barcio rhagddynt yn unol â'r adolygiad o barcio ledled y sir.
Y broses yw bod Aelodau yn y lle cyntaf yn trafod eu cais â swyddogion o'r uned draffig sy'n gallu rhoi gwybod a fyddai'n addas mynd rhagddo ai peidio a hefyd pa atebion eraill allai fod yn fwy effeithiol. Os cytunir y byddai gorchymyn traffig yn briodol, yna byddai'r gorchymyn arfaethedig yn cael ei sgorio a'i asesu yn erbyn cynlluniau eraill ar draws y Sir i greu rhestr yn nhrefn eu blaenoriaeth.
Ar hyn o bryd parheir i ddefnyddio adnoddau staff at y materion parhaus sy'n gysylltiedig â'r adolygiad o barcio ar draws y sir ac felly nid yw sgorio cynlluniau gorchmynion traffig sydd wedi'u ceisio amdanynt eto wedi digwydd. Bwriedir blaenoriaethu'r rhestr o gynlluniau'n barod erbyn y flwyddyn ariannol 2019-20 a fydd wedyn yn penderfynu rhaglen o'r rheini y gellir mynd â nhw rhagddynt y flwyddyn nesaf ynghyd ag awgrymu pryd y gellid ymgymryd â'r lleill.

DRAFT

Rwyf yn cydnabod nad yw'r ddogfen hon ar hyn o bryd yn rhoi gwybodaeth benodol i chi ynglŷn â phryd y gall cynllun penodol ddwyn ffrwyth, ond fe wneir pob ymdrech i ddarparu rhaglen o flaenoriaethau yn y man.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Charlton ynglŷn â pha mor hir y byddai'r adolygiad ar draws y sir yn para, dywedodd Deiliad y Portffolio mai cyfyngedig iawn oedd yr adnoddau yn y Sir a byddai'r adolygiad o barcio'n cymryd amser hir o gofio ei maint.

15.17. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Ddysgu a'r Gymraeg gan y Cynghorydd Sir Karl Lewis**

A all Deiliad y Portffolio dros Ddysgu a'r Gymraeg ddweud wrth y Cyngor pa ddulliau newydd o gyflwyno digidol y mae'n eu hyrwyddo i gefnogi Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2025?

Ymateb
Mae Powys yn parhau i gydnabod pwysigrwydd atebion digidol wrth gyflwyno addysg.

1. Rydym yn peilotio llwyfan dysgu digidol gyda dysgwyr chweched dosbarth ym Mhowys gyda dau bwnc yn cael eu cynnig ar draws pob safle. Y gobaith yw datblygu hyn ymhellach gyda phartner masnachol lle bydd athrawon mewn ysgolion ym Mhowys yn datblygu cyrsiau i'w cyflwyno gan ddefnyddio'r llwyfan ar-lein yma.

2. Mae dirprwyaeth o benaethiaid wedi ymweld â Wrecsam i edrych ar ddarpariaeth y llwyfan dysgu ar-lein yma.

3. Yn unol â hyn rydym hefyd yn cynllunio cymorth TGCh gydag ysgolion cynradd gan ddefnyddio partneriaeth ag awdurdod lleol cyfagos i sicrhau caledwedd ddigidol o safon uchel i'r dyfodol. Yn amlwg bydd hyn yn gadael i'r awdurdod ddatblygu ymhellach ddarpariaeth a dewisiadau i weithio ar draws ysgolion.

4. Mae Ceredigion a Phowys yn cydweithio ar brosiect e-ddysgu o'r enw e-sgoil. Dyma lwyfan dysgu digidol lle gall disgyblion o wahanol gampysau ymuno â gwersi rhyngweithiol. Mae'r ffurf e-sgoil ar ddysgu digidol wedi cael ei datblygu yn yr Alban. Mae'r fenter hon yn cael ei lansio yng Ngheredigion ddydd Iau 11 Hydref gan Weinidog y Cabinet dros Addysg.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

15.18. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Lywodraethu Corfforaethol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Peter Lewis**

A all Deiliad y Portffolio roi'r diweddaraf i'r Cyngor am gyflwyno'r 250 o gartrefi newydd i'r Sir?

Ymateb

DRAFT

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi sefydlu Tîm Tai Fforddiadwy i arwain ar ddatblygu'r 250 o gartrefi.
Bu'r tîm yn cydweithio â Gwasanaethau Cynllunio a Phriffyrdd i ystyried hyfywedd tua 80 o safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae'r gwaith yma bellach wedi'i gwblhau a bydd y Gwasanaeth Tai'n datblygu strategaeth ddatblygu hirdymor sy'n seiliedig ar tua 60 o safleoedd. Bu'r tîm hefyd yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu mewn cymunedau ar draws y sir i adnabod a chadarnhau'r angen am dai.
Ceir manylion y cynnydd mewn perthynas â'r chwe safle cyntaf isod. Bydd y safleoedd hyn yn darparu tua 170 o'r 250 o gartrefi.
Y Lawnt Fowlio, Y Drenewydd – cytunwyd ar y cais cynllunio yn y Pwyllgor Cynllunio ddydd Iau 13 Medi. Briff y tendr i'w derfynu a'r broses dendro i ddechrau ym mis Hydref gyda dyddiad targed i gychwyn ar y safle ym mis Mawrth 2019. Mae'r cynllun wedi pasio'r asesiad cyntaf ar gyfer grant Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru.
Sarn – Penodwyd y pensaer (Penseiri Hughes) ac mae'r cynlluniau'n cael eu paratoi ar hyn o bryd ar gyfer datblygiad sy'n sicrhau safonau Passivhaus. Bydd y prosiect yma'n darparu cyfanswm o 7 uned gyda 3 ar gael i ffermwyr-denantiaid hŷn sy'n byw yn yr ardal ers blynyddoedd lawer ac sydd am ymddeol.
Clos Cradog, Aberhonddu – Penodwyd pensaer (Pentan) ac mae cynlluniau'n cael eu paratoi ar hyn o bryd – y cynllun yma fydd y prosiect mwyaf gan ddarparu hyd at 36 o gartrefi newydd. Disgwylir dechrau ar y safle yn ystod haf 2019.
Cleirwy – mae'r Gwasanaeth Tai ar hyn o bryd yn ystyried y math o adeiladau ar gyfer y safle hwn. Disgwylir dechrau ar y safle yn ystod hydref 2019.
Hen safle Smithfield, Llanidloes – mae'r safle wedi cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Refeniw Tai. Ar hyn o bryd mae'r swyddog ecoleg yn gorffen ei hymweliadau â'r safle a byddwn yn derbyn yr adroddiad terfynol cyn bo hir. Mae briff y cynllun yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a disgwylir iddo fynd i dendr ar ddechrau 2019.
Y Ddraig Goch/Canolfan Ieuenctid, Y Drenewydd – Bydd y Ddraig Goch a'r hen ganolfan ieuenctid yn cael eu dymchwel ym mis Hydref. Mae briff y cynllun yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a'i derfynu a bydd hwn yn mynd i dendr ar ddechrau 2019.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Lewis am ddefnyddio contractwyr lleol, rhoddodd Deiliad y Portffolio wybod am y digwyddiadau i gwrdd â'r prynwr a gynhelir gyda busnesau yn y sir. Ar ben hynny, roedd cynllun a fyddai'n gweld y Cyngor yn prynu tai fforddiadwy gan ddatblygwyr hefyd yn cael ei ystyried.

15.19. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Diane Jones-Poston**

A all yr Arweinydd roi'r diweddaraf i'r Cyngor ynglŷn â chynnydd Bargen Twf Canolbarth Cymru?

Ymateb
Dyddiau cynnar yw'r rhain i Fargen Twf Canolbarth Cymru, ond mae'n dechrau symud yn gyflym at gam nesaf y broses. Mae'n bwysig nodi mai Bargen 'bosibl' yw hon o hyd nes iddi gael ei chymeradwyo gan y llywodraeth ganolog. I ddatblygu'r sefyllfa mae cyfres o gabinetau anffurfiol wedi'u cynnal ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion. Mae'r gwaith hefyd yn cael ei gefnogi gan y Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru bresennol sydd, ochr yn ochr â'r Arweinwyr a

DRAFT

swyddogion o'r ddau gyngor, hefyd yn cynnwys mynychwyr o'r sector busnes, Llywodraeth Cymru, Addysg Uwch, Amaethyddiaeth a Thwristiaeth. Cyfarfu swyddogion ag uwch-weision sifil o'r Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru i bennu'r dull i'w gymryd ar gyfer prosiectau posibl. Rhan allweddol o'r Fargen fydd cyfranogiad y sector busnes a bydd hyn yn digwydd drwy Fwrdd Economaidd i gefnogi'r ddarpariaeth.
Fel rhan o'r dull o gyflwyno'r Fargen ymchwilir i gynllun gweithredu economaidd rhanbarthol ehangach a'i ddrafftio gyda chefnogaeth allanol gan Aecom Cyf. Cydgomisiwn yw'r gwaith hwn sy'n cynnwys Powys, Ceredigion a Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses mae cyfres o weithdai wedi'u cynnal sy'n cynnwys busnesau, grwpiau rhanbarthol a'r sector Addysg Uwch. Fframwaith fydd y cynllun gweithredu economaidd rhanbarthol a fydd yn cynnig sail gwybodaeth i'r Fargen. Mae gan Gymru dair Bargen yn barod ac mae cysylltiad wedi'i wneud ac rydym hefyd wedi cwrdd â Chyngor Sir Amwythig i godi ymwybyddiaeth o gofio'r cysylltiadau trafnidiaeth agos.
I helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Fargen cynhelir digwyddiad yn y Senedd ac un arall yn San Steffan.
Bydd diweddariad i'r holl Gynghorwyr am Fargen Twf Canolbarth Cymru mewn sesiwn datblygu aelodau dros yr wythnosau i ddod.

Gan ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Jones-Poston ynglŷn â sut byddai'r Cyngor yn ymgysylltu â busnesau i gyflwyno'r fargen dwf, eglurodd yr Arweinydd fod dros 300 o fusnesau wedi mynychu cyfarfodydd brecwast busnes gyda'r Cabinet. Bwriadai hefyd ffurfio pwyllgor datblygu economaidd yn cynnwys busnesau lleol i weithio ochr yn ochr â Phartneriaeth Canolbarth Cymru. Ar ddiwedd mis Ionawr, roedd diwrnod busnes wedi'i drefnu ar gyfer busnesau Powys yn y Senedd lle byddai Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn siarad.

15.20. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Gyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth gan y Cynghorydd Sir Claire Mills**

A wnaiff Deiliad y Portffolio dros Gyllid roi'r diweddaraf i'r Cyngor ynglŷn â pha drafodaethau sy'n cael eu cynnal i sicrhau bod Powys yn derbyn ei ddyraniad teg o gyllid yn fformiwla'r gyllideb gan Lywodraeth Cymru?

Ymateb
Mae'r Cyngor yn chwarae rhan weithredol yn y grwpiau sy'n datblygu ac yn cynghori ar Bolisïau Ariannol Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru.
Mae gan y Cyngor le yn yr Is-grŵp Dosbarthu sy'n adrodd wrth Lywodraeth Cymru am y fformiwla dosbarthu i lywodraeth leol. Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro hefyd yn gynrychiolydd llywodraeth leol yng Ngweithgor Cyllid a Diwygio Llywodraeth Leol Ysgrifennydd y Cabinet sy'n edrych ar ddyfodol cyllid llywodraeth leol yng Nghymru.
Mewn partneriaeth ag ardaloedd gwledig eraill, llwyddodd Powys i bledio'r achos i gydnabod y gost ychwanegol o ddarparu gwasanaethau mewn ardal wledig. Casglwyd tystiolaeth i ddangos y gost o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn y gymuned i bobl hŷn mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth. Arweiniodd hyn at y lwfans teneurwydd yn cael ei ddyrannu i Bowys, sef cyfanswm o £3 miliwn yn ychwanegol dros ddwy flynedd. Newid parhaol i'n dyraniad oedd hwn gan ddisodli'r trefniad gwirfoddol dros dro blaenorol oedd yn cynnwys pob un o'r 22 o awdurdodau.

Mae'r Cyngor yn ymateb i'r holl ymgynghoriadau sy'n effeithio ar ein cyllid a hefyd yn codi'r mater hwn gydag Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Mills a ddylai Aelodau Cynulliad sy'n cynrychioli'r sir ac yn gwasanaethu yn Llywodraeth Cymru wneud mwy i gefnogi'r economi wledig yn hytrach na chefnogi toriadau yn y gyllideb i gynghorau gwledig, cydnabu Deiliad y Portffolio fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol iawn ond yn anffodus nid oedd hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y setliad.

15.21. **Cwestiwn i'r Cynghorydd Sir William Powell, Aelod o Banel Heddlu a Throseddu Dyfed Powys gan y Cyngorydd Sir Michael Williams**

Yn wyneb y pryderon a fynegwyd dros yr haf gan arweinwyr Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu o gwmpas peryglon Brexit 'Heb Gytundeb', pa gynlluniau wrth gefn y mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys, Dafydd Llywelyn, yn eu gwneud mewn cydweithrediad â'i gyd-gomisiynwyr yn ardaloedd heddlu gogledd Cymru, De Cymru a Gwent?
O gofio'r pryderon go iawn a fynegwyd ynglŷn â diogelwch y cyflenwad bwyd a chyflenwadau meddygol, os na fydd cytundeb, pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i ganslo gwyliau ar draws Heddlu Dyfed Powys ym mis Mawrth/Ebrill 2019 i sicrhau diogelwch y gymuned?
Ar ben hynny, pa gamau sy'n cael eu cymryd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i arwain paratoadau gyda Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mhowys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, yn wyneb y posibilrwydd anffodus yma?

Ymateb
Rôl y Comisiynydd yw dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer Dyfed Powys, ond nid gwneud penderfyniadau gweithredol. Gan mai mater gweithredol yw hwn sy'n gofyn dull amlasiantaeth, mae'r CHTh Dafydd Llywelyn wedi ceisio sicrwydd bod Heddlu Dyfed Powys yn gweithio gyda phartneriaid drwy'r Fforwm(Fforymau) Cydnerthedd Lleol a grwpiau gweithredu eraill.
Mae Dafydd hefyd wedi mynychu cyfarfod 5 Medi gyda Jo Hopkins o'r Swyddfa Gartref yng Nghymru ynghyd â'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Richard Lewis i ystyried a deall y goblygiadau gweithredol yn wyneb y posibilrwydd o Brexit Heb Gytundeb. Mae hefyd wedi ymweld ag Ysgrifennydd Cabinet a Swyddogion Llywodraeth Cymru, lle cawsant drafodaethau penodol ynglŷn â'r pryderon o ran plismona a'r ymateb ynghylch Brexit Heb Gytundeb.
Rhoddwyd gwybod i Dafydd y bu Prif Gwnstabliaid yng nghyfarfod Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Heddlu 17 Medi yn trafod effaith Brexit Heb Gytundeb. Disgwylir yn yr wythnosau nesaf y bydd cynnydd cyflymach o ran cynllunio wrth gefn; fodd bynnag, daethant i'r casgliad nad oedd unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ganslo gwyliau swyddogion. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu'n barhaus a bydd canslo gwyliau'n aros yn ddewis gweithredol i Heddlu Dyfed Powys.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

DRAFT

15.22. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir William Powell**

Mae ar gof a chadw cyhoeddus bod tref Talgarth a'i heconomi wedi profi cryn gynnwrf yn y blynyddoedd yn arwain at gau Ysbyty Canolbarth Cymru ac ar ôl hynny rhwng 1995 a 2000. Yn ystod y degawd diwethaf, mae agor ffordd liniaru'r A479 (Talgarth), adferiad mewn balchder dinesig, menter a phwrpas ac, ynghynt eleni, sefydlu Ysgol y Mynydd Du i gyd wedi bod yn arwydd o hyder newydd yn nyfodol y dref.
Fodd bynnag, mae bod â chynifer o safleoedd sy'n eiddo i Gyngor Sir Powys ar ganol y dref ac sydd wedi neu sydd ar fin cael eu dynodi'n rhai dros ben, wedi'u cyfuno â'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Briff Datblygu ar gyfer hen safle Ysbyty Canolbarth Cymru a safleoedd dyranedig eraill, unwaith eto yn gweld y dref wrth groesffordd.
O gofio ei dealltwriaeth o'r cyfleoedd a heriau traws-bortffolio sy'n wynebu Talgarth, beth yw asesiad yr Arweinydd o rinweddau Cynllun Datblygu Strategol i Dalgarth? Gyda'r Cyngor Sir yn gweithio mewn partneriaeth o'r newydd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Tref Talgarth a thrwy harneisio egni a gweledigaeth pobl leol, byddai cynllun o'r fath yn hybu datblygu'r dref mewn ffordd holistig a chynaliadwy ar adeg twf heb ei ail. I'r diben hwn, a wnaiff yr Arweinydd ymrwymo i gynnull cyfarfod yn fuan i sefydlu'r gwaith sylfaenol ar gyfer cynllun o'r fath?

Ymateb
Mae Swyddogion o Gyngor Sir Powys wedi cefnogi llawer o fentrau yn ardal Talgarth ac ar hyn o bryd yn cefnogi cynnig Coleg y Mynydd Du.
Fel yr Awdurdod Cynllunio yn ardal Talgarth, mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wrthi'n annog cymunedau i ddatblygu Cynllun Lle. Deallaf fod y Parc Cenedlaethol eisoes wrthi'n datblygu cynllun dan arweiniad y gymuned yn Nhalgarth. Fe wnaiff Cyngor Sir Powys gynorthwyo'r broses drwy ein Tîm Adfywio yn ôl y gofyn.
Fel perchnogion y rhan fwyaf o'r safleoedd datblygu, ni allwn aros am 'gynllun lle'. Rwyf eisoes wedi siarad ag Eiddo a Thai ac rydym yn trefnu cyfarfod cychwynnol gyda'r Pennaeth Tai, Arweinydd Proffesiynol – Eiddo, yr Aelod Lleol, Deiliad y Portffolio a fi.

Wedyn gellir cael trafodaeth bellach ag eraill y bydd angen iddynt gyfrannu.

Yn ei gwestiwn atodol gofynnodd y Cynghorydd Powell a fyddai'r Arweinydd yn ymrwymo i gyfarfod amlasiantaeth â'r Parc Cenedlaethol ac asiantaethau perthnasol eraill gan gynnwys Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn berchen ar gryn dipyn o dir yn yr ardal ac yn ystod y cyfnodau cychwynnol fod angen i'r Cyngor edrych ar beth y gellid ei wneud gyda'r safleoedd hynny gan gynnwys y potensial o ran safleoedd gwaith. Roedd yn pryderu pe bai'r holl dir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tai y byddai'n newid cymeriad y gymuned.

15.23. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Iain McIntosh**

Gan fod y rhestr bresennol o ffermwyr a chontractwyr y galwyd arnynt i glirio'r eira trwm yn ystod y gaeaf diwethaf wedi brwydro i ymdopi, a wnaiff Deiliad y Portffolio dros Briffyrdd ystyried creu ail restr o ffermwyr a

DRAFT

chontractwyr sydd ag offer addas ar gyfer clirio eira fel y gellir galw arnynt os cawn ni'r un lefel o eira â'r gaeaf diwethaf ar ryw adeg yn y dyfodol?

Ymateb
Gan gydnabod y stormydd eira eithriadol a brofwyd gennym y llynedd, rwyf o'r farn fod yr ymateb a'r gwasanaeth a ddarparwyd yn dda iawn. Ymgymerir ag adolygiad blynyddol o Gynllun Gwasanaeth y Gaeaf ac fel rhan o'r ymarferiad hwn, mae'r rhwydwaith cymorth presennol o gontractwyr a ffermwyr hefyd yn cael ei adolygu. Mae'r profiad a'r adborth a gafwyd yn sgil y gaeaf diwethaf wedi nodi ardaloedd daearyddol lle y bydd cymorth ychwanegol yn fuddiol.
Mae'r trefniadau a mecanwaith i ddefnyddio'r cymorth allanol yma'n cael ei symud rhagddynt ar hyn o bryd o fewn fframwaith i sicrhau addasrwydd unrhyw gymorth a ddefnyddir, o gofio'r gofynion o ran lechyd a Diogelwch, hyfforddiant/cymwyseddau a lefel yswiriant sy'n gysylltiedig â gweithio ar y briffordd gyhoeddus.

Cwestiwn atodol y Cynghorydd McIntosh oedd a fyddai unrhyw gymorth ychwanegol gan ffermwyr a chontractwyr sydd ag offer addas erbyn y gaeaf sy'n dod. Rhoddwyd gwybod gan Ddeiliad y Portffolio, fel y digwyddodd yn ystod y gaeaf y llynedd, mai rheolwyr ardal fyddai'n gyfrifol am gyfeirio adnoddau ar gyfer gweithrediadau cynnal a chadw'r gaeaf.

15.24. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Iain McIntosh**

Mae'r ffyrdd o gwmpas ward Ysgir mewn cyflwr gwael iawn. Mae angen wyneb newydd mewn aml i ardal a cheir llwyth o dyllau'n aros heb eu trwsio. A all Deiliad y Portffolio dros Briffyrdd gynnig unrhyw sicrwydd i breswylwyr wardiau gwledig fel Ysgir y bydd eu ffyrdd yn cael eu trwsio at safon well cyn bo hir?

Ymateb
Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y gyllideb ar gyfer cynnal a chadw sylfaenol ar y ffyrdd wedi'i lleihau'n barhaus ac yn ddifrifol am sawl blwyddyn ac mae'n anochel yr adlewyrchir hyn gan y dirywiad amlwg yng nghyflwr ein rhwydwaith priffyrdd, yn enwedig ar y miloedd o gilometrau o ffyrdd gwledig sydd gynnon ni ym Mhowys. Mae dulliau newydd o weithio wedi'u cyflwyno'n ddiweddar (defnyddio peiriannau clytio *Roadmaster*) mewn ymgais i fynd i'r afael â'r lleihad yn y gyllideb a chynnal lefel gwasanaeth resymol, yn unol â'n dyletswydd fel yr awdurdod priffyrdd. Dylai defnyddio'r broses drwsio yma sicrhau atgyweiriad mwy parhaol ar gyfer nifer cynyddol y diffygion ar isffyrdd.
Rhoddwyd gwybod i mi fod nifer sylweddol o atgyweiriadau eisoes wedi cael eu gwneud yn yr ardal dan sylw yn sgil eich adroddiadau a bydd y rhain yn parhau o fewn cyfyngiadau adnodd y gyllideb. Ymgymerir â dadansoddiad risg o'r ffyrdd i sicrhau bod yr atgyweiriadau â blaenoriaeth yn cael eu hamserlennu mewn ffordd gyson ar draws y sir.
Mae ffyrdd a nodir fel rhai sy'n gofyn atgyweiriadau mwy sylweddol fel clytio strwythurol a thriniaethau i'r wyneb cyfan yn cael eu sgorio o ran blaenoriaeth a'u cynnwys mewn blaenraglen ar gyfer cyllid cyfalaf.

DRAFT

Cwestiwn atodol y Cynghorydd McIntosh oedd pam mae Llywodraeth Cymru'n gwario cymaint ar brosiect ffordd liniaru'r M4 yn hytrach na dosbarthu adnoddau'n gyfartal ledled Cymru. Nododd Deiliad y Portffolio, er 2011/12, i'r cyllid oedd ar gael ar gyfer priffyrdd ym Mhowys ostwng £5 miliwn ar gyfer gwasanaeth oedd yn gofalu am 5,500 cilometr o ffyrdd.

15.25. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Briffyrdd, Ailgylchu ac Asedau gan y Cynghorydd Sir Liam Fitzpatrick**

Beth sydd gan Balod a Chanolfan Ddiwylliannol Aberhonddu, Y Gaer, yn gyffredin? Mae'r ddau'n dod â *bills* dirgel enfawr (nid dyna'r cwestiwn). Roedd tudalen flaen y *Brecon and Radnor Express* yr wythnos diwethaf yn syfrdanol wrth ein hysbysu y byddai oedi i'r Gaer (canolfan ddiwylliannol Aberhonddu) tan y flwyddyn nesaf oherwydd materion yn ymwneud â cherrig a phalod yn nythu.
Fodd bynnag, dywedodd adaregwr lleol a'r RSPB wrtha i mai dim ond ym mis Ebrill a Mai y bydd palod yn nythu bob blwyddyn ac nad ydynt yn frodorol ym Mhowys ond gellir cael hyd iddynt yn Llychlyn yn ogystal ag Ynys Manaw a Swydd Efrog ynghyd ag Ynys Sgomer. Mae pastai pâl rhost wrth gwrs yn ddantaith yn Jamtland yng ngogledd Sweden a dw i'n siŵr ar ôl i Ynys-hir ger Machynlleth dderbyn seren Michelin na fydd yn hir cyn iddo ymddangos yng ngogledd Powys.
O ystyried na fydd palod o fudd i Bunt Powys yn fuan ac mai mis Hydref yw hi ac nid mis Ebrill ac nad ydynt, wrth gwrs, yn nythu, mi wna i ofyn y cwestiwn 'nawr i'r aelod o'r Cabinet.
A wnaiff yr aelod Cabinet gytuno â'r canlynol: sef, nid yn unig mai dyma efallai'r esgus mwyaf chwerthinllyd am anghymwystra ers y clasur 'fe wnaeth y ci fwyta fy ngwaith cartref' ond ei bod yn hynod annheg y bydd yn rhaid i bawb sy'n talu'r dreth gyngor drwy Bowys barhau i dalu am y ffars yma pryd y mae'n bur debyg, gyda thoriadau cyllidebol yn 2019 ar gyfer llyfrgelloedd, amgueddfeydd a chanolfannau diwylliannol eraill, na fydd gan yr adeilad ddigon o adnoddau hyd yn oed i agor yn y pen draw?

Ymateb
Rhoddwyd gwybod i ni gan Kier fod eu his-gontractwr, Allesco, sy'n cynhyrchu'r paneli tywodfaen coch ar gyfer gorchudd allanol adeilad newydd y llyfrgell, yn anffodus heb gael na threfnu i ddigon o'r cerrig gael eu cloddio i gwblhau'r nifer angenrheidiol o baneli.
Mae'r paneli'n defnyddio darn o garreg wedi'i dorri'n denau ar gefn cyfansawdd ar ffrâm fetel i'w gosod ar yr adeilad. Cloddiwyd y garreg, a gymeradwywyd gan bawb gan gynnwys APCBB, o chwareli yn y DU a'i chludo i'r ffatri yn yr Almaen lle gwnaethpwyd y paneli. Cawsom ar ddeall nad yw'r garreg gyfatebol angenrheidiol bellach ar gael o'r chwarel wreiddiol a chafwyd hyd i ffynhonnell arall ger St Bees Head yn Cumbria. Mae'r chwarel yn agos i warchodfa RSPB. Fe'n hysbyswyd na ellid tynnu'r garreg o'r chwarel tan fis Medi oherwydd presenoldeb y palod (yn nythu ai peidio). Ceir cyfnod o 14 i 16 wythnos ar gyfer gweithgynhyrchu a dosbarthu o ddyddiad cael y garreg. O ganlyniad, mae Kier wedi adrodd na fydd yr elfennau olaf o'r gorchudd yn cael eu cwblhau tan ddechrau mis Rhagfyr.

DRAFT

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Firzpatrick, o gofio toriadau cyllidebol, a fyddai'r adeilad yn agor, cadarnhaodd Deiliad y Portffolio y byddai'r Gaer yn agor yn 2019 a byddai'n cael ei staffio.

15.26. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Lywodraethu Corfforaethol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Karen Laurie-Parry**

Mae llywodraethu da'n hanfodol mewn Llywodraeth Leol ac wrth weithio yn unol â Gweledigaeth Gytunedig a Chyhoeddedig Cyngor Sir Powys. Mewn cysylltiad â'r datblygiad tai preifat i'r de o hen Ysgol Gynradd Bronllys a phentre Bronllys yn gyffredinol, sut roedd y Digwyddiad Ymgysylltu â'r Cyhoedd i chi a sut gwnaethoch chi ymgysylltu â phobl o bwys yn y broses yn arwain at y diwrnod?

Ymateb
Bu'r digwyddiad yn ddefnyddiol iawn i'r Cyngor wrth gyfleu'r neges am gynlluniau'r Cyngor i ddatblygu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion cymunedau lleol. Yn y digwyddiad oedd wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r cynghorydd lleol a'r cyngor cymuned, bu 79 o bobl o bentref Bronllys yn bresennol. Derbyniodd y Gwasanaeth Tai 32 o holiaduron wedi'u cwblhau, gyda thua dwy ran o dair ohonynt o'r farn fod angen rhagor o gartrefi fforddiadwy yn y pentref. Ar ben hynny, anogwyd 6 aelwyd a roddodd wybod bod angen cartrefi fforddiadwy arnynt i roi eu henwau ar y Gofrestr Tai Cyffredin.
Y gobaith yw bod y neges a dderbyniodd y gymuned drwy'r digwyddiad oedd ein bod am weithio gyda'r gymuned i ddiwallu ei hanghenion am dai fforddiadwy ac na fydd tai fforddiadwy yn cael eu gorfodi ar gymunedau.

Dywedodd y Cynghorydd Laurie-Parry fod y gymuned eisiau cartrefi oedd yn fforddiadwy go iawn.

15.27. **Cwestiwn i Ddeiliad y Portffolio dros Lywodraethu Corfforaethol, Tai a Diogelu'r Cyhoedd gan y Cynghorydd Sir Karen Laurie-Parry**

Mewn perthynas â Chaffael Cymdeithas Adeiladu/Datblygwr Preifat, a ydych yn fodlon bod Cynghorwyr a Swyddogion wedi glynu at y gweithdrefnau a chanllawiau cywir a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Powys ac a allwch egluro'r weithdrefn a ddefnyddiwyd?

Ymateb
Prynwr y safle, a fu gynt mewn perchenogaeth breifat, yw Cymdeithas Dai Sir Fynwy (CDSF). Gan y bydd y safle'n cael ei ddatblygu gan y Gymdeithas heb ddefnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol ac yn cael ei ddatblygu i ddarparu cartrefi i'r farchnad i'w gwerthu, ni fu gan y Cyngor unrhyw rôl hyd yma. Wrth reswm, bydd gofyn i CDSF, yn yr un modd ag unrhyw ddatblygwr arall, ddilyn polisi cynllunio pan fydd y cynllun yn cael ei adeiladu. Gwahoddwyd CDSF i'r digwyddiad ymgynghori oherwydd bod Swyddogion yn ymwybodol ei bod wedi prynu'r safle ac ystyriwyd y byddai'n gyfle defnyddiol i CDSF gwrdd ag aelodau o'r gymuned i drafod eu cynlluniau ar gyfer y safle a gwrando ar farn y gymuned leol.

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

DRAFT

16.	EITEMAU WEDI'U HEITHRIO

Rhoddwyd gwybod gan y Cadeirydd fod yr eitem ganlynol wedi cael ei thynnu'n ôl ac nad oedd angen pasio'r penderfyniad o ran mynediad i wybodaeth.

17.	HYSBYSIAD CYNNIG

Gohiriwyd yr eitem hon.

Y Cynghorydd Sir DW Meredith (Cadeirydd)

DRAFT